**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL

# STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00 p.m. DYDD MERCHER, 23 HYDREF 2013**

**2.00 p.m. WEDNESDAY, 23 OCTOBER 2013**

Lleoliad / Location

**Siambr Hywel Dda**

**Swyddfeydd y Cyngor**

**CAERNARFON**

**Nodwch y lleoliad, o.g.y.dd. / Please note the venue**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 15.10.13

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL
## STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION

## AELODAETH / MEMBERSHIP (7)

### Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Huw Edwards
Selwyn Griffiths
Gareth Thomas

**Annibynnol / Independent (2)**

Y Cynghorwyr / Counillors

Tom Ellis
Jean Forsyth

**Llais Gwynedd (2)**

Sedd Wag
Louise Hughes

**Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members –**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-Chairman of the Council –
Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill / Christians and Other Religions

Yr Eglwys Fethodistaidd / Methodist Church - Mr Wyn Myles Meredith
Undeb Bedyddwyr Cymru / Union of Welsh Baptists - Mrs Ruth Davies
Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Presbyterian Church of Wales - Parch. / Rev. Deian Evans
Yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales - Parch. / Rev. Robert Townsend
Yr Annibynnwyr / The Independents – Mr Cynrig Hughes
Yr Eglwys Gatholig / Catholic Church - Mrs Eirian Bradley Roberts

## Athrawon / Teachers

| | | |
|---|---|---|
| ASCL | - | Mrs Alwen Watkin |
| UCAC | - | Mr Noel Dyer |
| NAS/UWT | - | Mrs Miriam Angharad Amlyn |
| NUT | - | Mr Euron Hughes |
| ATL | - | Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination |
| NAHT | - | Mrs Lisabeth Roberts |

### Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members

Mr Rheinallt Thomas
Mr Gwyn Rhydderch
Y Parch. Aled Davies

**R H A G L E N**

1. **Gweddi**

2. **Ymddiheuriadau**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. **Datgan Cysylltiad Personol**

Derbyn unrhyw gysylltiad personol

4. **Materion Brys**

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

5. **Cofnodion**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 13 Mehefin 2013.

(Copi'n amgaeedig - Papur Gwyn)

6. **Cyflwyniad**

I dderbyn cyflwyniad gan Mrs Ann Williams, Pennaeth Ysgol Llanelltyd, ynglyn â dysgu Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen.

7. **Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd 2012-2013**

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Drafft er ystyriaeth cyn cyhoeddi copi terfynol.

(Copi yn amgaeëdig – Papur Melyn)

8. **Safonau Addysg Grefyddol**

I ystyried adroddiad gan Arweinydd Sustem GwE ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – Papur Llwyd)

9. **Hunan Arfarniadau Ysgolion**

I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Ardudwy, Harlech
(ii) Ysgol Dyffryn Ogwen
(iii) Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn
(iv) Ysgol Dolbadarn, Llanberis
(v) Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth
(vi) Ysgol Baladeulyn, Dyffryn Nantlle

(Copiau'n amgaeedig - Gwyrdd)

**10**. **Adroddiad Arolwg Thematig ESTYN**

I dderbyn cyflwyniad gan Arweinydd Sustem GwE ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur hufen)

11. **Arweinyddiaeth a Chefnogaeth CYSAG**

(a) I ystyried dadansoddiad o holiadur a gynhaliwyd yn yr Haf.

(Copi'n amgaeedig – papur lelog)

(b) Beth yw argymhellion CYSAG i Gyngor Gwynedd?

**12. Cymdeithas CYSAGau Cymru**

(a) I dderbyn cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2013 yng Nwynedd.

(Copi'n amgaeedig - Papur Eog)

(b) I dderbyn adborth llafar ar Gynhadledd CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2013.

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 13/06/13

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths a Gareth Thomas.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Eirian Bradley Roberts, (Yr Eglwys Gatholig), Parchedig Deian Evans (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

**Aelod Cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), a Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Sylwebydd:** Miss Bethan James (Arweinydd Sustem GwE),

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Huw Edwards, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Parchedig Deian Evans.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.**

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gareth Thomas yn Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATER BRYS**

(Nid oedd yr eitemau isod wedi eu cynnwys ar y Rhaglen ond cytunodd y Cadeirydd i'w hystyried dan Adran 100 (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972).

(a) Adroddodd Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG ei fod wedi derbyn llythyr gan Goleg y Drindod Dewi Sant Prifysgol Cymru yn datgan y bydd cylchgrawn Newyddion Addysg Grefyddol ar gael ar lein o hyn allan oherwydd diffyg cyfraniadau arian digonol gan awdurdodau lleol ac anallu i dderbyn arian o ffynonellau eraill. Teimlai'r Bwrdd Golygyddol y byddai lleihad yng nghostau ei gynhyrchu ar lein ac y gallai hyn fod yn gynaliadwy. Byddir yn lansio'r Wefan yn fuan iawn ac fe hysbysir y rhai sydd yn cyfrannu'n ariannol o'r cyfrinair i fedru darllen y cylchgrawn ar lein.

Ychwanegodd Aelod bod nifer sylweddol o unigolion yn derbyn y cylchgrawn ac y byddir yn cynnig iddynt hwythau barhau i'w dderbyn am gyfraniad ariannol blynyddol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ar lefel awdurdodau lleol i Aelodau CYSAGau dderbyn y cyfrinair. Nodwyd bod Gwynedd eisoes yn cyflwyno syniadau am wersi Addysg Grefyddol i ysgolion ar lein drwy safle Moodle. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt ynglŷn â chamau posibl i ystyried i un corff gwmpasu popeth yn ymwneud â materion Addysg Grefyddol i'r dyfodol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a sicrhau bod Aelodau CYSAG Gwynedd yn derbyn y cyfrinair mor fuan a phosibl.**

(b) Llythyr gan Fudiad CYTÛN yn gofyn am restr o Aelodau CYSAG.

**Penderfynwyd:** Gofyn i Glerc CYSAG anfon rhestr ddosbarthu Aelodaeth CYSAG Gwynedd i'r mudiad uchod.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2013 fel rhai cywir.

## 6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

Adroddodd Miss Bethan James bod CYNNAL bellach wedi ei ddisodli gan gorff newydd a elwir yn GwE a'i bod wedi ei phenodi fel Arweinydd Sustem. Fel rhan o'i swydd newydd nid oedd wedi ymdrin â materion Addysg Grefyddol ers 1 Ebrill.

Cyflwynwyd i'r Aelodau daflen enghreifftiol ganddi o sut gall CYSAG hunan arfarnu safonau Addysg Grefyddol a gofynnwyd iddynt ymdrin â thasgau gan ddefnyddio Hunan Arfarniadau'r gyflwynwyd gan ysgolion yn dilyn arolygiadau diweddar sef Ysgol Bethel, Ysgol Nebo ac Ysgol Penybryn, Bethesda. Canolbwyntiwyd ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael a'r eirfa feintiol ac arfarniadol a ddefnyddiwyd gan yr athrawon. Yn ogystal cyflwynwyd holiadur i'r Aelodau i gywain barn ynglyn a sut gall Aelodau CYSAG gefnogi'r drefn o fonitro safonau addoli ar y cyd ac Addysg Grefyddol i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) bod yr eirfa feintiol yn fwy amlwg na'r eirfa arfarniadol
(ii) pwysigrwydd i ysgolion fod yn onest yn eu hunan arfarniadau
(iii) bod y rhestr eirfa yn ddefnyddiol a buddiol iawn ac nad oedd athrawon yn ymwybodol bod angen defnyddio'r eirfa ar gyfer hunan arfarniadau sydd yn cael eu cyflwyno i CYSAG. Fodd bynnag, bod athrawon yn defnyddio'r eirfa ar gyfer hunan arfarniadau sydd yn cael ei chyflwyno i ESTYN
(iv) awgrymwyd y byddai'n syniad rhoi arweiniad i athrawon ynglyn â'r rhestr eirfa a'i hysbysu o rôl CYSAG

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â dylanwad ymwelwyr i wasanaethau ysgolion, esboniodd Miss Bethan James bod yn rhaid ymddiried bod ysgolion yn dewis ymwelwyr yn ddoeth. Nodwyd bod hawl i'r gwasanaeth fod yn Gristnogol ond o safbwynt gwers Addysg Grefyddol cyfrifoldeb yr ysgol ydyw sicrhau nad yw plant yn cael eu dylanwadu ar un enwad yn fwy na'r llall gan fod rhaid i wers Addysg Grefyddol fod yn ddiduedd.

O safbwynt cwestiynau i ofyn i athrawon er mwyn deall mwy am Addysg Grefyddol yn yr ysgol, nodwyd y canlynol:

(a) faint o athrawon sydd wedi derbyn hyfforddiant penodol mewn Addysg Grefyddol
(b) sut y mesurir gwelliant o un flwyddyn i'r llall
(c) y byddai'n fuddiol gweld enghreifftiau o waith da'r disgyblion
(d) cyfeiria'r hunan-arfarniadau at addysgu ond nid oes son am y dysgu megis dim son am effaith o'r hyn a wneir
(e) gall y dysgu fod yn eithriadol o dda a'r addysgu ddim cystal

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol anfon y ffurflen engreifftiol a ddarparwyd gan Miss Bethan James i ysgolion i'w cynorthwyo a'u hannog i ddefnyddio'r eirfa briodol wrth gwblhau'r hunan arfarniadau i'r dyfodol.**

## 6. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

### (a) Cofnodion cyfarfod diwethaf

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2013 yng Nghasnewydd.

Cyfeiriodd Aelod at y cyflwyniad buddiol a diddorol a dderbyniwyd gan athrawon (sef Ann Williams a Helen Evans) o Ysgol Llanelltyd. Awgrymwyd y dylid cyfeirio'n benodol at enw'r Ysgol yn y cofnodion yn hytrach na chyfeirio atynt fel ysgolion o Ddolgellau.

Awgrymwyd ymhellach y byddai'n fuddiol eu gwahodd i roi cyflwyniad i gyfarfod nesaf o CYSAG Gwynedd yn yr Hydref.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Cynorthwyol Addysg wahodd Ann Williams a Helen Evans, Ysgol Llanelltyd, i roi cyflwyniad ar waith yn y Cyfnod Sylfaen.**

### (b) Cyfarfod nesaf y Gymdeithas

Atgoffwyd Aelodau y cynhelir cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru yn Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon, ar ddydd Mercher, 19 Mehefin 2013 ac anogwyd Aelodau i fynychu.

Tynnwyd sylw hefyd y cynhelir y Gynhadledd Genedlaethol ar 10 Hydref 2013 ac anogwyd cynrychiolwyr i fynychu yn enwedig gan y byddai adroddiad thematig ESTYN yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 ar y rhaglen.

**(c) Enwebiadau i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru**

Cyflwynwyd enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith gan nodi bod tair sedd ar gael ac angen llenwi swydd yr Is-gadeirydd hefyd. Derbyniwyd 9 enw ar gyfer gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith ond deallir bellach bod Mr Dafydd Treharne wedi tynnu ei gais yn ôl.

Tynnwyd sylw hefyd y dylsai CYSAG Gwynedd fod wedi enwebu un enw yn unig.

Cyn i gyfarfod CYSAG gychwyn yn ffurfiol yn gynharach, roedd y tri grŵp cynrychioliadol sef Aelodau'r Awdurdod, enwadau Cristnogol a'r athrawon wedi ymgynnull i ddewis tri enw fel bo Cadeirydd CYSAG yn gallu bwrw pleidlais ar eu rhan yng Nghyfarfod Blynyddol CYSAGau Cymru a gynhelir yng Nghaernarfon ar 19 Mehefin 2013.

**Penderfynwyd: Enwebu'r rhai canlynol:**

**(i) Mr Wyn Meredith**
**(ii) Ms Mary Parry**
**(iii) Mr Mark Brown**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.35 pm

**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

DRAFFT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2012 – Awst 2013

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Dewi Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2012-13
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

DRAFFT

ADRAN 1:
CRYNODEB GWEITHREDOL

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Cynghorydd
Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2012-13

DRAFFT

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyrwyddir y ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau i ysgolion. Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- dderbyn adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ymgynghorol CYNNAL;

### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Gwynedd (9 Chwefror 2011) penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid ysgolion Gwynedd ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

DRAFT

Mae Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynir canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion. Mae pob cwrs hyfforddi ym maes y Dyniaethau yn cynnwys elfen o hunan arfarnu ac yn codi ymwybyddiaeth athrawon o'r canllawiau a dosbarthwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Cyfeirir athrawon hefyd at y tri chwestiwn sy'n sail i drefn arolygu ESTYN:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?

Derbyniwyd 16 adroddiad hunan arfarniad gan benaethiaid ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn: Abercaseg, Aberdyfi, Abererch, Bethel, Borth y Gest, Felinwnda, Foelgron, Llandwrog, Llandygai, Llanystumdwy, Maesincla, Morfa Nefyn, Nebo, Santes Helen, Penybryn (Bethesda), a Thudweiliog. Derbyniwyd 1 adroddiad hunan arfarniad gan bennaeth Ysgol Eifionydd. Ni dderbyniwyd adroddiadau gan x ysgol a arolygwyd yn ystod 2012-3:

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o'r fframwaith arolygu newydd. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | 1 | 15 | | | 2 | 14 | | | 1 | 15 | | |
| **Uwchradd** | | 1 | | | | 1 | | | | 1 | | |
| **Cyfanswm** | 1 | 16 | | | 2 | 14 | | | 1 | 16 | | |

Roedd tua hanner yr adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarniadol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy. Fodd bynnag roedd llawer o'r sylwadau yn gyffredinol iawn wrth gyfeirio at safonau pwnc a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol. Prin oedd y cyfeiriadau at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- diddordeb a mwynhad y disgyblion wrth astudio addysg grefyddol; (Tudweiliog)
- gwybodaeth a dealltwriaeth dda'r disgyblion o brofiadau bywyd a'r cwestiynau a godir ganddynt ynghyd a chredoau ac arferion crefyddol; (Aberdyfi)

DRAFT

- portffolio pwnc sy'n dangos fod llawer o blant CA2 yn gallu disgrifio nodweddion dathliadau a defodau crefyddol a'r storiâu crefyddol sy'n gysylltiedig â hwy a'u gallu i ddeall eu cefndir a'u hystyr; (Bethel)
- dealltwriaeth dda'r disgyblion o gredoau ac arferion crefyddol; (Abererch, Borth y Gest)
- cyfraniadau effeithiol a phwrpasol y disgyblion i'r gwersi, (Llanystumdwy, Abererch) ac ansawdd aeddfed trafodaethau'r disgyblion hŷn; (Santes Helen, Abererch)
- yr enghreifftiau da o ysgrifennu ymestynnol mewn addysg grefyddol; (Santes Helen)
- y defnydd a wneir gan y disgyblion o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn gwella eu gwaith addysg grefyddol; (Llandwrog)
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu disgrifio a dechrau esbonio dysgeidiaeth ac arferion crefyddol; (Llandygai)
- y cynnydd y gwna'r disgyblion wrth gyflwyno ymatebion personol ac aeddfed i gwestiynau personol, crefyddol a moesol gan ddangos empathi at eraill; (Foelgron)
- cyfraniad disgyblion CA2 wrth iddynt gynllunio ymchwiliad yn seiliedig ar Gwestiwn Mawr. Maent yn gallu dilyn trywyddau ymholi, casglu gwybodaeth, creu a dadansoddi holiaduron, dehongli arteffactau a lluniau, holi a thrafod gyda disgyblion ac ymwelwyr a manteisio ar ymweliadau gwaith maes. Erbyn diwedd yr uned waith mae'r mwyafrif llethol o ddisgyblion yn gallu cynnig ymateb personol i'r Cwestiwn Mawr mewn ffordd hyderus, effeithiol a sensitif; (Foelgron)
- bod y disgyblion yn gwneud defnydd da o symbolau crefyddol a geirfa briodol yn eu gwaith addysg grefyddol; (Llandygai)
- perfformiad da disgyblion CA2 wrth iddynt gyflawni nodweddion Lefelau 4 a 5 yn eu gwaith addysg grefyddol; (Felinwnda, Nebo)
- perfformiad da disgyblion CA3 mewn addysg grefyddol ac ymgeiswyr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol; (Eifionydd)
- y cysylltiadau gydag asiantaethau allanol, e.e. Antur Waunfawr, UNICEF, Masnach Deg, Cyngor Prydeinig sy'n galluogi'r disgyblion i ddysgu am grefyddau eraill; (Abercaseg, Nebo)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd tua hanner yr ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o grefyddau eraill; (Llanystumdwy)
- ddatblygu hyder y disgyblion i gyd-gynllunio cwestiynau allweddol mewn addysg grefyddol; (Bethel, Tudweiliog)
- ddatblygu gallu disgyblion i ffurfio eu syniadau a'u credoau eu hunain am fywyd a chrefydd a chyflwyno'r ymatebion personol hyn mewn ffyrdd gwahanol; (Bethel)
- cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n cyrraedd L5+ yn CA3; (Ysgol Eifionydd)

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- y cynllunio da sy'n rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau addysg grefyddol a medrau allweddol; (Abererch, Bethel, Borth y Gest)
- y cynllunio trylwyr sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymchwilio i gwestiynau sylfaenol bywyd o fewn cyd-destun dysgeidiaeth ac arferion crefyddol; (Llandygai, Nebo)

DRAFT

- y cyfleoedd a roddir i'r disgyblion i ymchwilio eu hunain, casglu gwybodaeth, rhannu syniadau a thrafod.  Mae hyn yn datblygu medrau meddwl, llythrennedd a sgiliau TGCh y disgyblion.  Erbyn diwedd y tymor mae'r disgyblion yn gallu cynnig ymatebion i'r Cwestiwn Mawr; (Foelgron)
- y cyfnodau myfyrio sydd wedi cael effaith gadarnhaol a thrawiadol ar safon gwaith disgyblion, yn enwedig yn CA2; (Llandygai)
- y drefn o gymedroli mewn cyfarfodydd staff ysgol gyfan.  Mae hyn wedi cyfrannu at ddealltwriaeth dda o ofynion addysg grefyddol; (Bethel)
- hyder yr athrawon wrth gyflwyno addysg grefyddol ar lawr y dosbarth a'r modd y mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn modelu iaith addas mewn gwersi addysg grefyddol; (Morfa Nefyn)
- yr arsylwadau gwersi oedd yn dangos bod addysgu addysg grefyddol yn dda gyda phwyslais ar gyraeddiadau a safonau uchel; (Llandwrog)
- y cyfleoedd cyson a roddir i'r disgyblion i gyfrannu i weithgareddau cymdeithasol, e.e. gwasanaethau crefyddol, dathliadau Gŵyl Dewi, cinio cymunedol i'r henoed; (Aberdyfi)

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae tua hanner yr ysgolion yn awyddus i:

- hyfforddi athrawon a'r cymorthyddion i holi cwestiynau agored; (Aberdyfi)
- sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio medrau meddwl yn y gwersi er mwyn datblygu eu dysgu annibynnol; (Santes Helen)
- ddatblygu ymhellach yr elfen ymchwiliol mewn addysg grefyddol;
- arsylwi gwersi addysg grefyddol fel rhan o broses hunan arfarnu'r ysgol; (Maesincla)
- gydweithio gydag ysgol gyfagos er mwyn arsylwi gwersi addysg grefyddol; (Foelgron)
- ddatblygu sgiliau trafod, gwrando a mynegi barn y disgyblion yn y gwersi addysg grefyddol; (Foelgron)
- ddefnyddio addoldai lleol mewn ymholiadau gwaith maes addysg grefyddol; (Llandwrog, Morfa Nefyn, Felinwnda)
- ddarparu adnoddau ac arteffactau i addysgu'r disgyblion am gredoau ac arferion eraill; (Borth y Gest, Felinwnda)
- adolygu'r cynlluniau er mwyn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, gan adnabod cyfleoedd penodol i ddatblygu ysgrifennu estynedig o fewn addysg grefyddol; (Penybryn – Bethesda)

DRAFT

## Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- y sesiynau addoli ar y cyd cyffrous sy'n ...cyffwrdd calonnau'r disgyblion; (Llanystumdwy)
- y gwasanaethau boreol amrywiol sy'n gosod cywair cywir i'r plant ar ddechrau pob dydd yn yr ysgol; (Morfa Nefyn)
- cyfranogiad y disgyblion i'r cyfnodau addoli ar y cyd.  Mae un dosbarth yn gyfrifol am gymryd un gwasanaeth yn wythnosol; (Penybryn-Bethesda)

- naws ysbrydol y cyfnodau addoli ar y cyd lle mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol trwy drafod cwestiynau sydd yn ymwneud â moesoldeb; (Abercaseg, Abererch, Bethel, Felinwnda)
- cyfraniad arweinwyr crefyddol lleol i'r cyfnodau addoli ar y cyd; (Aberdyfi, Bethel, Borth y Gest, Felinwnda, Foelgron, Llandygai, Nebo, Penybryn-Bethesda, Tudweiliog)
- y gwasanaethau addoli ar y cyd enghreifftiol sydd wedi eu rhannu ar wefan Moodle CYNNAL; (Llandygai)

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- ystyried amrywio 'cynllun' y disgyblion mewn gweithredoedd addoli; (Llandygai, Foelgron)
- sefydlu gwell strwythur i'r cyfnodau addoli ar y cyd yn y dosbarthiadau (Borth y Gest), neu ddilyn rhaglen ac amserlen addoli ar y cyd yn fwy pendant; (Nebo)
- datblygu cyfleoedd i'r disgyblion gael 'munud i feddwl' neu amser i fyfyrio o fewn cyfnodau addoli ar y cyd; (Bethel, Penybryn-Bethesda)
- creu ardal fyfyrio yn yr ysgol; (Tudweiliog)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Gwella ansawdd hunan arfarniadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;
- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc;
- Llunio camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael âg ysgolion sydd heb gyflwyno adroddiad CYSAG i sylw CYSAG;
- Cytuno ar amserlen a threfn hunan arfarnu fel bod pob ysgol yn ymwybodol o'r disgwyliadau;
- Hwyluso cyfleoedd i athrawon i rannu arferion da ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, a
- Gwahodd un cydlynydd addysg grefyddol i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod dilynol o GYSAG;

### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Mae athrawon ymgynghorol CYNNAL wedi arwain nifer o gyfarfodydd hyfforddi ers 2007 er mwyn dadansoddi nodweddion y disgrifiadau lefel a chynllunio gweithgareddau dysgu priodol.

Gwahoddwyd adrannau uwchradd i gyflwyno portffolios o waith disgyblion i sylw safonwyr allanol CBAC yn 2010/11 a 2011/12 er mwyn safoni dealltwriaeth athrawon o'r disgrifiadau lefel. Cwblhawyd y broses hon yn Haf 2012 ac mae pob adran wedi derbyn adroddiad yn nodi os oedd y

safonwyr yn cytuno gyda'u dehongliad neu beidio. Roedd yr adroddiadau yn cynnig arweiniad pellach i'r athrawon os oedd y safonwyr wedi methu a chytuno gyda dehongliad yr ysgol. Nid oes cyfleoedd pellach i ailgyflwyno'r portffolios.

- Mae 13 adran uwchradd wedi cyflwyno portffolio i sylw'r safonwyr allanol. Nid oedd Ysgol Eifionydd wedi cyflwyno portffolio oherwydd salwch y pennaeth adran.

- Mae'r mwyafrif o adrannau wedi dangos dealltwriaeth dda o nodweddion Lefelau 5. Mae gan tua hanner o'r adrannau dealltwriaeth dda o nodweddion Lefel 4. Mae gan hanner yr adrannau dealltwriaeth dda o Lefelau 6 a 7. Cynghorwyd pob adran i fynd i'r fael â rhai materion yn ymwneud a natur y gweithgareddau a/neu'r asesu.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**
- Darparu cefnogaeth i'r adrannau oedd wedi methu cyflwyno portffolio neu wedi methu dangos dealltwriaeth llawn o'r nodweddion lefelau.
- Hwyluso cyfleoedd i athrawon i rannu arferion da ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Gwynedd gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C)*.

| **Blwyddyn** | **Ysgolion** | **Disgyblion** | | **%L5+** | | **%L6+** | | **%L7+** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C* | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C |
| 2012 | 5(5)+13(14)+4(7) | 1260 | 2,568 | 87.2 | | 51.4 | | 16.4 | |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 1145 | 1,767 | 82.0 | | 40.9 | | 12.6 | |

- Cyflwynodd 13 o ysgol uwchradd Gwynedd data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd Ysgol Uwchradd Tywyn wedi cyflwyno data perfformiad. Cyflwynodd un ysgol arbennig data perfformiad addysg grefyddol.
- Aseswyd 1260 o ddisgyblion CA3 yn Haf 2012.
- Cyflawnodd 87.2% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol (74.1% yn 2011). Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 90.6% i 80%%;
- Cyflawnodd 51.4% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol, (29.7% yn 2011). Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 36.1% i 67.7%.
- Cyflawnodd 16.4% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol, (6.9% yn 2011). Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 3.5% i 31.6%
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 7 ysgol.
- Roedd 16 disgybl yng Ngwynedd yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

DRAFT

**Canlyniadau TGAU:  Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r  drefn o adrodd ar ganlyniadau arholiadau allanol wedi newid eto eleni.  Mae'r amrediad o bynciau, byrddau arholi ac arholiadau modylol yn golygu ei fod yn anodd pennu sgorau cyfartalog yr holl bynciol.  Amhriodol felly yw cymharu perfformiadau ysgolion yn erbyn ei gilydd .  Fodd bynnag mae'r wybodaeth yma ar gael i'r ysgolion a disgwylir i benaethiaid adrannau addysg grefyddol i gyfeirio at berfformiad eu disgyblion mewn pynciau eraill wrth iddynt hunan arfarnu safonau'r pwnc.

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 14 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2011.

| | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgor cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2012** | 113 | 190 | 303 | 37.2 | 44.7 | 41.9 | 76.1 | 83.2 | 80.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 44 | 46 | 45 |
| **2011** | 128 | 266 | 394 | 24.2 | 41.7 | 36.0 | 62.5 | 75.9 | 71.6 | 99.2 | 96.2 | 97.2 | 40 | 43 | 42 |
| **2010** | 42 | 97 | 139 | 14.3 | 36.1 | 29.5 | 61.9 | 90.7 | 82.0 | 92.9 | 99.0 | 97.1 | 36 | 42 | 40 |

Nid yw sgôr cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau.  O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion.  Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i ddata sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn pynciau eraill.  Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**Canlyniadau da**

- 303 ymgeisydd o 10 ysgol yng Ngwynedd.  Sgor cyfartalog y pwnc yw 45.
- Mae'r nifer o ymgeiswyr sy'n sefyll yr arholiad yn amrywio o 6 disgybl mewn un ysgol i 132 mewn ysgol arall.
- 41.9% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A  (rhagoriaeth).  Mae'r treigl tair blynedd yn awgrymu bod hyn yn gynnydd arwyddocaol.  Mae'r bwlch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n ennill y graddau uwch wedi lleihau yn sylweddol.  (2012=7.5%, 2011=16.5%, 2010=11.8%)
- 80.5% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C).  Tra bod y treigl tair blynedd yn dangos cynnydd yn y ganran o fechgyn sy'n ennill cymhwyster L2 mae cyflawniad y genethod yn fwy ansefydlog.  Mae'r bwlch rhwng o ganran o fechgyn a genethod sy'n ennill L2 wedi lleihau'n sylweddol, (2012=7.1%, 2011=13.4%, 2010=28.8%)
- Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 113 : G 190).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn.  Mae sgôr cyfartalog y merched yn 46 mewn cymhariaeth a sgôr cyfartalog y bechgyn o 44.  Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU.  Fodd bynnag mae canlyniadau eleni yn awgrymu bod y bwlch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched yn lleihau.

DRAFT

Mae'n annhebygol y bydd cefnogaeth ymgynghorol addysg grefyddol ar gael i ysgolion ar ôl Mawrth 2013. Efallai bod modd i'r penaethiaid adran ystyried ffurfio cymunedau dysgu proffesiynol er mwyn ymchwilio i rai cwestiynau allweddol:

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn.

| | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2012** | 17 | 38 | 58 | 0.00 | 0.00 | 0 | 58.8 | 84.2 | 76.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 22 | 20 |
| **2011** | 121 | 134 | 255 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 46.3 | 67.2 | 57.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 21 | 19 |
| **2010** | 223 | 323 | 546 | 0.9 | 3.7 | 2.6 | 62.8 | 82.4 | 74.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 22 | 25 | 23 |

Nid yw sgôr cyfartalog mewn pynciau eraill yr ymgeiswyr ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau AG yn gallu cael mynediad i'r data hyn. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r data hyn yn eu hunan arfarniadau adran.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrwaon addysg grefyddol er mwyn ymchwilio i gwestiynau allweddol megis:
  - *Pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*
  - *Beth gall adrannau ddysgu oddi wrth adrannau eraill ynglyn â'r ffordd orau o gefnogi bechgyn wrth iddynt baratoi at arholiadau allanol. Pa strategaethau eraill dylid eu hystyried er mwyn cau y bwlch rhwng y merched a'r bechgyn?*
  - *Sut gall adrannau herio'r disgyblion i gyflawni gwaith o'r safon uchaf?*

### 2.3.3 Adroddiadau Arolygiadau ESTYN

Arolygwyd x ysgol yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn. Nid oedd cyfeiriad at addysg grefyddol yn yr adroddiadau. Nodwyd bod safon addoli ar y cyd yn rhagorol/da/digono/anfoddhaol mewn x ysgol.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Adroddwyd ar ansawdd a datblygiad y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion Gwynedd yn ystod y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg. Wrth ystyried blaenoriaethau Strategaeth Plant, Phobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd 2012-14 mae nod craidd 2 yn berthnasol i GYSAG Gwynedd.

**Nod Craidd 2 – Mynediad i addysg a chyfleoedd dysgu da.**

Mae Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn darparu cefnogaeth ariannol i GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Mae CYNNAL yn penodi Ymgynghorydd Dyniaethau, gyda chyfrifoldeb am Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn darparu cefnogaeth gwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddwy sir. Cynigir hefyd secondiad hanner amser (0.5 yn 2011-12) i athro neu athrawes weithio fel athro neu athrawes ymgynghorol.

### 2.4.1 Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol

Ers 1996, mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir wedi derbyn cefnogaeth gan CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Penodwyd Ymgynghorydd Dyniaethau ac athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol (rhan amser) i ymweld ag ysgolion fel rhan o'r rhaglen 'hawl a haeddiant' ac i ddarparu cyrsiau hyfforddi. Cafwyd cefnogaeth tair athrawes ymgynghorol yn ystod 2011-12:

- Mrs Leusa Jones (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon uwchradd
- Miss Debbie Humphreys: (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.
- Mrs Nia Wyn Jones (0.5 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.

Roedd y tîm ymgynghorol wedi cynorthwyo athrawon yn ystod y flwyddyn, i gynllunio'u rhaglenni astudio a chynlluniau asesu, paratoi gweithgareddau dosbarth a dethol adnoddau dosbarth addas. Roedd datblygu medrau meddwl, sgiliau hanfodol y dysgwyr ac arweinyddiaeth yn flaenoriaeth i athrawon y sir. Mae CYNNAL wedi cefnogi ysgolion sy'n paratoi at arolygiad trwy gynorthwyo athrawon ac adrannau i hunan arfarnu safonau mewn addysg grefyddol. Roedd cyfraniad yr athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol yn allweddol i rannu arferion da, datblygu gweithgareddau dosbarth symbylol a chynnal athrawon wrth iddynt baratoi at y dyfodol.

Mae'r Ymgynghorydd Dyniaethau a/neu'r athrawon ymgynghorol wedi gweithredu ar ran awdurdodau addysg Gwynedd a Môn ac wedi cyflwyno adroddiadau tymhorol i sylw CYSAG. Roedd y cyflwyniadau hyn yn fodd i rannu datblygiadau diweddaraf yn y maes, materion yn ymwneud â phedagogiaeth ac adnoddau, ac amlinelliad o'r gwaith a wneir gydag ysgolion yr AALl.

Ymatebodd y tîm ymgynghorol i anghenion ysgolion yn 2012-13 trwy:

- gefnogi ysgolion wrth iddynt ymateb i'r Maes Llafur Cytûn Lleol a'r drefn hunan arfarnu newydd. Darparwyd y gefnogaeth mewn cyrsiau hyfforddi, ymweliadau ysgol, cyswllt e-bost a safle Moodle CYNNAL;

- adnabod nodweddion hunan arfarniad da gan gyfeirio'n benodol at iaith arfarnon a thystiolaeth feintiol a mesuradwy;
- baratoi a darparu cyrsiau hyfforddi:
    - 'Cau'r Blwch: Dysgu ac Addysgu Effeithiol' i athrawon AG uwchradd. Defnyddiwyd samplau o waith disgyblion ac adroddiadau arsylwi gwersi enghreifftiol er mwyn dod i farn am safonau addysgu grefyddol a llythrennedd y disgyblion ac am safon y ddarpariaeth. Rhoddwyd sylw hefyd i ddefnyddio iaith a therminoleg addas wrth lunio adroddiadau hunan arfarnu.
    - 'Astudiaethau Crefyddol TGAU' i athrawon AG uwchradd dan arweiniad prif swyddog CBAC.
    - 'Data a Dirgelion: datblygu sgiliau darllen yn y Dyniaethau' i athrawon CA3 AG uwchradd. Roedd y sesiwn bore yn gyfle i ddefnyddio dirgelwch trawsgwricwlaidd 'Caethwasiaeth' er mwyn modelu gweithgaredd darllen, llafaredd a darllen. Ffocws sesiwn y prynhawn oedd datblygu sgiliau darllen data disgyblion wrth iddynt ddefnyddio siartiau, graffiau, tablau a diagramau fel tystiolaeth i ymchwilio i gwestiynau sylfaenol.
    - 'Beth yw ystyr y Nadolig?' i athrawon AG cynradd. Defnyddiwyd addoldai (Eglwysi Sant Tegai, Llandygai ac Eglwys y Drindod Sanctaidd, Penrhyndeudraeth), arteffactau, stori Feiblaidd a charolau i hybu sgiliau ymchwilio a sgiliau llythrennedd y disgyblion.
    - Cwrs 5 diwrnod Hyfforddi a Datblygu Athrawon yn y Dyniaethau. Roedd y thema 'heddwch' yn gyfrwng i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr athrawon o Fwdhaeth ac i fodelu gweithgareddau enghreifftiol i hybu ysgrifennu estynedig ymhlith disgyblion CA2. Bu cyfle hefyd i hunan arfarnu safonau addysg grefyddol. Gwelwyd effaith yr hyfforddiant yn aseiniadau'r athrawon: cynlluniau gwaith, ymchwil gweithredu, dangos dealltwriaeth o un lefel cyrhaeddiad.
    - Deall Safonau yng Nghyfnod Allweddol 3. Cydweithiodd tri ymgynghorydd addysg grefyddol rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn trefnu cwrs hyfforddi i athrawon CA3. Arianwyd y cwrs gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac ysgolion uwchradd yr ardal. Atgyfnerthwyd yr arweiniad blaenorol a rhoddwyd i athrawon CA3, wrth iddynt gynllunio ac asesu gweithgareddau cyfoethog mewn addysg grefyddol, gan gyfeirio at y ddogfen, 'Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3' (Llywodraeth Cymru). Mynychodd cynrychiolwyr o 11 adran addysg grefyddol uwchradd yng Ngwynedd yr hyfforddiant.
- arsylwi gwersi athrawon newydd gymhwyso yn y sector uwchradd;
- ddefnyddio safwe Moodle CYNNAL fel cyfrwng i rannu adnoddau a chanllawiau i athrawon wrth iddynt baratoi gweithgareddau addysg grefyddol, a
- chyfrannu erthyglau i 'Newyddion Da' er mwyn rhannu newyddion ac arferion da o Wynedd a Môn.

Pob tymor, bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn mynychu cyfarfodydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL yw cadeirydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol eleni. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau fforymau cenedlaethol i drafod materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol.

DRAFT

### 2.4.2 Cefnogaeth i ysgolion ar ôl Ebrill 2013

Daeth cangen ymgynghorol CYNNAL i ben ar 31 Mawrth 2013. Nid oes bellach ymgynghorydd dyniaethau nac athrawon ymgynghorol addysg grefyddol yn gwasanaethu ysgolion Gwynedd a Môn. Mae Miss Bethan James wedi ei phenodi fel arweinydd system i'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion).

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad.

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

DRAFT

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
    - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
    - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Gwynedd yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:
    - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.
    - Gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol. Mae'r Awdurdod yn dosbarthu'r adnoddau misol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Ngwynedd.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau ysgolion yn cydyffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Cynghori'r ysgolion i ddefnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion. Mae safle Moodle CYNNAL yn fan cychwyn da ar gyfer canllawiau, amserlen enghreifftiol, restr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion lleol.
- Dosbarthu gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yn Gwynedd.

DRAFFT

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

*Mae'r Pwyllgor Addysg wedi cadw'i hawl i enwebu Cadeirydd ar gyfer CYSAG.*

DRAFFT

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2012-13

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Mr Wyn Myles Meredith |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Ruth Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Parch Deian Evans |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Parch Robert Townsend |
| Undeb yr Annibynwyr | Mr Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Babyddol | Mrs Eirian Bradley Roberts |

**Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mr Noel Dyer (Ysgol Glan y Môr) |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Mr Euron Hughes |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Mrs Lisabeth Roberts |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) | *gwag* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Huw Edwards (Cadeirydd)** | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Selwyn Griffiths | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Gareth Thomas | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Tom Ellis | Annibynnol |
| Cynghorydd Jean Forsyth | Annibynnol |
| Cynghorydd John Brynmor Hughes | Llais Gwynedd |
| Cynghorydd Louise Hughes | Llais Gwynedd |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

Mr Rheinallt Thomas
Mr Gwyn Rhydderch
Parch Aled Davies

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Dewi Jones | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mr Ken Robinson | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Miss Bethan James | Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL |
| Mrs Leusa Jones | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Miss Debbie Humphreys | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Mrs Nia Wyn Jones | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Mrs Glynda O'Brien | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |

DRAFFT

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2011-12

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2012 – 2013, cyfarfu CYSAG Gwynedd ar dri achlysur:

24 Hydref 2012
20 Chwefror 2013
13 Mehefin 2013

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 24 Hydref 2012**

- Hunan arfarniadau ysgolion: Aberdyfi, Santes Helen, Maesincla, Llanystumdwy, Llandwrog, Morfa Nefyn, Eifionydd.
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2011/2012
- Cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ymgynghorol
  - Pa mor dda yw safonau addysg grefyddol?
  - Canfyddiadau Adroddiad Prif Gymedrolwr Asesiadau Athrawon CA3 CBAC
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno, Conwy ar 26 Mehefin 2012

**b) Cyfarfod 20 Chwefror 2013**

- Hunan arfarniadau ysgolion: Abercaseg, Abererch, Borth y Gest, Felinwnda, Llandygai, Foelgron, Tudweiliog;
- Cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ymgynghorol
- Gwaith cyfredol
  - HMS Cymdeithas CYSAGau Cymru: asesiadau athrawon CA3
  - Sut gall CYSAG gyflawni ei dyletswyddau yn y dyfodol?
- Adroddiad 'CYSAGau a'r Gymuned Leol' (Cymdeithas CYSAGau Cymru)
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym Merthyr Tudful ym mis Tachwedd 2012.
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd (terfynol) 2010/11

**c) Cyfarfod 13 Mehefin 2013**

- Hunan arfarniadau ysgolion: Bethel, Nebo, Penybryn (Bethesda);
- Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol
  - Newyddion Addysg Grefyddol
  - Sut gall CYSAG gyflwyno ei ddyletswyddau yn y dyfodol?
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ar 22 Mawrth 2012.

DRAFT

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Mr Wyn Myles Meredith

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau
- Mr Rheinallt Thomas

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Mr Dewi Jones, Pennaeth Adran
Mr Ken Robinson , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd y Dyniaethau, sy'n gwasanaethu Gwynedd a Môn fel aelod o'r Cwmni Ymgynghorol, CYNNAL
Mrs Leusa Jones, Miss Debbie Humphreys, Mrs Nia Wyn Jones: athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol ran amser.
Mrs Glynda O'Brien, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi papur i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

DRAFT

## 3.4 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

### Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae’n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, ‘cynghori’r awdurdod ar y cyfryw faterion sy’n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â’r addysg grefyddol sydd i’w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda’. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Gwynedd** y dylai’r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy’n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Gwynedd** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio’n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Gwynedd** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a’r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda’r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu’r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | |
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mr Ken Robinson** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu’r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau’r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu’r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i’r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

DRAFFT

**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** |
| --- |
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. |
| • **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol: Canllawiau CA2 a CA3 a Proffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (Llywodraeth Cymru), Adroddiad Prif Safonwr CA3 CBAC (2012), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed, |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
| --- |
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |

| **Addoli ar y Cyd** | | |
| --- | --- | --- |
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).<br>'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

DRAFT

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

### Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| %L1<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (□) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

### Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | |
| % L1<br>B \| G \| Σ | |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

DRAFT

**Gwynedd : Haf 2013**

**2.5 Safonau Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd**

**2.5.1 CA3 Asesiadau athrawon**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Nid yw'r disgyblion yn sefyll yr un profion neu'r un tasgau asesu ar draws y sir. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd hyfforddiant ers 2007 er mwyn cefnogi athrawon wrth iddynt ddadansoddi nodweddion y disgrifiadau lefel a chynllunio gweithgareddau dysgu addas. Gwahoddwyd ysgolion i gyflwyno portffolios o waith disgyblion i gymedrolwyr allanol CBAC yn 2010/11 a 2011/12 er mwyn cymedroli dealltwriaeth athrawon o'r disgrifiadau lefel. Daeth y broses hon i ben yn ystod Haf 2012 ac mae adrannau wedi derbyn adroddiadau yn nodi os oedd y cymedrolwyr yn cytuno gyda dealltwriaeth yr athrawon neu beidio. Roedd yr adrannau yn cynnig arweiniad pellach i'r athrawon os oedd y cymedrolwyr wedi methu a chytuno gyda dehongliad yr adrannau.

Cyflwynodd 13 (allan o 14) ysgol uwchradd yng Ngwynedd eu portffolios i sylw cymedrolwyr allanol CBAC. Roedd adroddiadau'r Prif Safonwr yn nodi bod gan y mwyafrif o adrannau ddealltwriaeth dda o nodweddion Level 5. Roedd gan tua hanner yr adrannau dealltwriaeth dda o nodweddion Level 4. Roedd gan hanner yr adrannau dealltwriaeth dda o Lefelau 6 a 7.

Trefnwyd hyfforddiant i athrawon addysg grefyddol Gogledd Cymru, 'Deall Safonau yng Nghyfnod Allweddol 3' yng Nghyfforddd Llandudno yn Ionawr 2013. Cydweithiodd tri ymgynghorydd addysg grefyddol rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn trefnu cwrs hyfforddi i athrawon CA3. Arianwyd y cwrs gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac ysgolion uwchradd yr ardal. Atgyfnerthwyd yr arweiniad blaenorol a rhoddwyd i athrawon CA3, wrth iddynt gynllunio ac asesu gweithgareddau cyfoethog mewn addysg grefyddol, gan gyfeirio at y ddogfen, 'Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3' (Llywodraeth Cymru). Mynychodd cynrychiolwyr o 11 adran addysg grefyddol uwchradd yng Ngwynedd yr hyfforddiant.

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Gwynedd gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C)*.

| **Blwyddyn** | **Ysgolion** | **Disgyblion** | | **%L5+** | | **%L6+** | | **%L7+** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C* | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C |
| 2013 | 5 ysgol | 380 | | 93.4 | | 69.5 | | 24.5 | |
| 2012 | 5(5)+13(14)+4(7) | 1260 | 2,568 | 87.2 | | 51.4 | | 16.4 | |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 1145 | 1,767 | 82.0 | | 40.9 | | 12.6 | |

Derbyniwyd data perfformiad CA3 oddi wrth pump ysgol: Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol y Moelwyn, Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Glan y Môr.

Nid yw CYNNAL wedi derbyn data perfformiad CA3 oddi wrth: Ysgol Botwnnog, Ysgol Brynrefail, Ysgol Eifionydd, Ysgol y Gader, Ysgol Uwchradd Tywyn, Ysgol y Berwyn, Ysgol Ardudwy, Ysgol Friars, Ysgol Tryfan.

**Beth yw argymhellion CYSAG i Gyngor Gwynedd?**

### 2.5.2 Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2011.

| | Nifer o ysgolion | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgor cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| 2013 | 12 | 126 | 262 | 388 | 38.9 | 46.6 | 44.1 | 79.4 | 84.7 | 83.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 45 | 47 | 46 |
| 2012 | 10 | 113 | 190 | 303 | 37.2 | 44.7 | 41.9 | 76.1 | 83.2 | 80.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 44 | 46 | 45 |
| 2011 | 12 | 128 | 266 | 394 | 24.2 | 41.7 | 36.0 | 62.5 | 75.9 | 71.6 | 99.2 | 96.2 | 97.2 | 40 | 43 | 42 |
| 2010 | | 42 | 97 | 139 | 14.3 | 36.1 | 29.5 | 61.9 | 90.7 | 82.0 | 92.9 | 99.0 | 97.1 | 36 | 42 | 40 |

Nid yw sgor cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i data sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**Canlynadau da iawn**

- 388 ymgeisydd o 12 ysgol yng Ngwynedd. Sgor cyfartalog y pwnc yw 46. Nid oes ymgeiswyr o Ysgol Uwchradd Tywyn. Mae ymgeiswyr Ysgol Ardudwy yn teithio i Ysgol Eifionydd er mwyn dilyn cwrs TGAU.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 11 disgybl mewn un ysgol i 167 mewn ysgol arall.
- 44.1% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth). Mae'r ganran wedi cynyddu'n gyson ers 2010.
- 83% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) ac mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod safonau wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 126 : G 262).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgor cyfartalog y merched yn 47 mewn cymhariaeth a sgor cyfartalog y bechgyn o 45. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Fodd bynnag mae canlyniadau L2 eleni yn awgyrmu bod y bwlch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cau am y pedwerydd blwyddyn o'r bron. Mae'r blwch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 7.7%, sy'n gyson a'r bwlch yn 2012 (7.5%).
- Mae'r ganran o fechgyn a merched a dderbyniodd cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 wedi cynyddu'n raddol ers 2011.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

| | | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgor cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| 2013 | 9 | 145 | 253 | 398 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 71.0 | 79.1 | 76.1 | 97.2 | 97.6 | 97.5 | 21 | 23 | 22 |
| 2012 | 3 | 17 | 38 | 55 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 58.8 | 84.2 | 76.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 22 | 20 |
| 2011 | 6 | 121 | 134 | 255 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 46.3 | 67.2 | 57.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 21 | 19 |
| 2010 | | 223 | 323 | 546 | 0.9 | 3.7 | 2.6 | 62.8 | 82.4 | 74.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 22 | 25 | 23 |

**Beth yw argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Gwahodd Adran Addysg Grefyddol Ysgol Friars i rannu arferion da mewn cyfarfod o CYSAG Gwynedd. Mae niferoedd sylweddol o fechgyn (78) a genethod (88) yn sefyll yr arholiad TGAU, ac nid yw'r bwlch rhwng cyflawniad L2 y bechgyn a genethod mor sylweddol a llawer o adrannau eraill (5.2%)
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn ymateb i Adroddiad Arolwg ESTYN (2013) ac i ymchwilio i gwestiynau allweddol megis:
    - *Pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*
    - *Beth gall adrannau ddysgu oddi wrth adrannau eraill ynglyn â'r ffordd orau o gefnogi bechgyn wrth iddynt baratoi at arholiadau allanol. Pa strategaethau eraill dylid eu hystyried er mwyn cau y bwlch rhwng y merched a'r bechgyn?*
    - *Sut gall adrannau herio'r disgyblion i gyflawni gwaith o'r safon uchaf?*

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd.  Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol.  Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Rationale**

Religious Education in locally controlled by a Standing Advisory Council on Religious Education (SACRE). It is made up of three committees: representatives of the principal religous traditions of the area, teacher representatives and local authority representatives. SACRE's main function is, " to advise the authority upon such matters connected with religious worship in county schools and the religious education to be given in accordance with an agreed syllabus as the authority may refer to the council or as the council may see fit." (Education Reform Act 1988 s.11(1)(a)

Gwynedd SACRE believes that this advice should be based on current information and hopes that the following guidelines will enable headteachers to support SACRE in its duties.

In the past Gwynedd SACRE has monitored religious education and collective worship by:

- reviewing ESTYN inspection reports;
- analysing the assessment and examination results within the secondary schools of the Local Authority;
- receiving regular reports from the representatives of the local school advisory service;
- inviting teachers and headteachers to share examples of good practice with SACRE members.

The new ESTYN Inspection Framework will no longer make specific references to Religious Education and collective worship. Gwynedd SACRE would therefore like to take advantage of the procedures and practices that are currently used by headteacher and teachers as they prepare for the new Inspection Framework It was resolved at the Gwynedd SACRE meeting on 13 October 2010 that it would fulfil its statutory responsibilities by inviting schools to share their self evaluation of Religious Education, collective worship and pupils' spiritual and moral development with SACRE members.

Primary and secondary schools are kindly asked to submit a summary of the school's self evaluation to the clerk of Gwynedd SACRE during the year when they are inspected by ESTYN.

**Contact details:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Name (SACRE Clerk): Ken Robinson.**

**Address: Arfon Area Education Office, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Since 2008 the SACREs of Wales have adopted or adapted the National Exemplar Framework for Religious Education (DCELLS 2008) as their locally agreed syllabus. Members of the National Advisory Panel for RE have welcomed this consistency across Wales since it has allowed them to work together to prepare generic guidelines for schools and SACREs. Many SACREs in Wales have adopted a monitoring procedure/process similar to the one noted in this document.

**Enw'r Ysgol: YSGOL ARDUDWY**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Ar ôl cyfnod pan oedd dirywiad mewn safonau mewn Addysg Grefyddol yn yr ysgol oherwydd materion medrusrwydd ac absenoldeb tymor hir y Pennaeth Adran ar y pryd, mae safonau wedi gwella yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn CA3
Yn 2012 roedd y nifer o ddisgyblion a gyrhaeddodd Lefel 5+ yn 87.7%, 6+ 42.0%; 7+ 3.5%,. Yn 2013 roedd canlyniadau Lefel 5+ yn 93.7%; 6+ 43.7%; 7+ 14.5%. Mae hyn yn gynnydd da.

Oherwydd y problemau staffio blaenorol nid oedd neb wedi dewis Asudiaethau Crefyddol yn CA4 am sawl blwyddyn. Mae pob disgybl CA4 yn astudio Addysg Grefyddol Statudol ac mae hyn yn cael ei achredu fel rhan o Fagloriaeth Cymru sydd yn rhoi statws i'r cwrs a ddysgir.

**Materion i gael sylw**

Cynyddu'r nifer o fechgyn sydd yn cyrraedd lefelau 7+ yn y pwnc.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Fel rhan o brosiect arbennig i leihau'r nifer o athrawon sydd yn dysgu disgyblion Blwyddyn 7 ar ôl trosglwyddo o'r cynradd, penderfynwyd cyfuno Cymraeg, Addysg Grefyddol a TGC mewn un bloc dysgu gyda'r un athro/athrawes yn dysgu'r holl wersi yn CA3. Cafwyd arweiniad a hyfforddiant gan Bethan James a Leusa Jones o Cynnal i sefydlu'r patrwm a chreu cynlluniau gwaith addas sydd yn cydfynd â Maes Llafur cytun CYSAG. Mae'r trefniant wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau gwell. Mae'r Pennaeth Adran Gymraeg hefyd yn gweithredu fel Pennaeth Addysg Grefyddol ac wedi datblygu'n dda yn ei rôl newydd ar ôl hyfforddiant arbenigol. Mae'r tri athro/awes sydd yn dysgu'r trefniant newydd hefyd wedi cael hyfforddiant addas ac yn hyderus yn dysgu Addysg Grefyddol. Mae bloc o bum gwers 50 munud yn cael ei neilltuo i'r Gymraeg/Addysg Grefyddol/TGC ac mae cyfwerth un wers yn cael ei neilltuo i Addysg Grefyddol dros y flwyddyn. Golyga hyn y gellir gwneud cyfnodau o Addysg Grefyddol yn hytrach nag un wers ddigyswllt yn wythnosol sydd yn rhoi cyfleoedd ehangach i astudio materion penodol mewn mwy o ddyfndfer.

Mae strategaethau dysgu ac addysgu amrywiol a heriol ar waith ac mae arsylliadau gwersi wedi bod o leiaf Da+ o ran y dysgu ac addysgu drwy gydol y flwyddyn.

Mae Ysgol Ardudwy'n cydweithio gydag Ysgol Eifionydd ar gyfer nifer o bynciau CA4 gan fanteisio ar gryfderau'r ddwy ysgol. Penderfynwyd mai Ysgol Eifionydd a fydd yn cynnig Astudiaethau Crefyddol TGAU yn CA4 ar gyfer y ddwy ysgol o hyn allan. Bydd un disgybl o Ysgol Ardudwy'n sefyll TGAU yn 2014.

| |
|---|
| **Materion i gael sylw**<br>Cymhwyso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a ddaw i rym 1 Medi 2013 i'r Cynlluniau Gwaith |

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy √** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>• Disgyblion sydd yn arwain pob gwasanaeth boreol yn yr ysgol a'r disgyblion yn cyd drefnu a pharatoi'r gwasanaethau gyda'r Tiwtor Dosbarth a phob dosbarth cofrestru yn cyfrannu yn eu tro<br>• Ceisir sicrhau bod neges a thema amserol a pherthnasol i bob gwasanaeth<br>• Ceir gwasanaethau arbennig ar gyfer achlysuron megis Diolgarwch, Nadolig, Pasg<br>• Defnyddir TG gweledol a chylwedol yn y gwasanaethau yn y Neuadd, e.e. powerpoint, photostory, clipiau U Tube ac y.y.blaen<br>• Bydd disgyblion yn cyfrannu hefyd i addoli ar y cyd yn y dosbarth cofrestru gan gynnwys ysgrifennu gweddiau | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>• Parhau i ddatblygu gwasanaethau yn y Neuadd i gynnwys mwy o gyfraniadau cerddorol<br>• Cynyddu'r nifer o unigolion gwadd i gymryd y gwasanaeth yn ogystal â'r Gideoniaid<br>• Monitro effeithiolrwydd addoli ar y cyd yn ystod adegau cofrestru | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | √ | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Tudur Williams

Dyddiad: 2 Gorffennaf 2013

**Enw'r Ysgol: YSGOL DYFFRYN OGWEN**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

**CA3**

- canran L5 yr adran yn 89.6% yn 2012 – hyn yn gynnydd o 9.3% ers 2011, wedi gwneud cynnydd graddol dros y blynyddoedd diwethaf.
- canran L6+ yn 59.7% yn 2012, y pwnc uchaf yn yr ysgol ac wedi mwy na dwblu ers llynedd; hyn o ganlyniad i ymestyn disgyblion yn gynharach.
- asesiadau CA3 am 2012 yn gosod yr ysgol 2.4% yn uwch na'r AALl, wedi bod 1.4% yn is llynedd a 4.7% yn uwch yn 2010
- mae'r bwlch rhwng perfformiad B/M ar L5+ (93.1%/86.5%) wedi cau ers llynedd ond mae'r bwlch (51.4%/69.0%) yn parhau o ran y L6+ yn 2012.
- ni ragwelir bwlch B/M ar ddiwedd CA3 yn 2013 ond mae angen targedu hanner dwsin o fechgyn ym ml.8 i i geisio sicrhau fod y bwlch wedi cau o ran L6+ yn 2014.

**Barn ar berfformiad CA3 – DA**

**CA4**

- dim canlyniadau TGAU yn 2012, blwyddyn fechan o 42 disgybl.
- canlyniadau rhagorol yn 2011, A*-C yn 94.7%
- tri disgybl ym mlwyddyn 11 presennol wedi cael graddau is nac C (dwy o 1 marc a'r llall o 6 marc) ac yn cael eu targedu i wella eleni. 75% wedi cael C ym mlwyddyn 10 a'r targed ar gyfer eleni yw fod 92% yn cael graddau A* i C.
- **Tueddiadau dros amser** – wedi bod yn uwch na'r Sir o ran canran gradd C+ yn 2009 a 2011. Sgôr y pwnc wedi bod yn uwch na'r Sir, 47.58 yn 2011 o gymharu a 43.25 y Sir.
- **Y mwyafrif o'r dysgwyr wedi gwneud yn well yn Addysg Grefyddol na'u pynciau eraill o radd a hanner. Mae hyn yn rhagorol.**

**Barn ar berfformiad CA4 – RHAGOROL**

**CA5**

- canlyniadau blwyddyn 12 yn y modiwl Iddewiaeth yn Ionawr yn dda

- siomedig oedd canlyniadau nifer o ddisgyblion yn y modiwl Bwdhaeth yn Haf 2012, ond y canlyniadau yn llawer gwell wedi ail-sefyll yn Ionawr 2013.

**Barn ar berfformiad CA5 – DA**

**Materion i gael sylw**

- Cynyddu'r nifer o raddau A*/A yn y canlyniadau TGAU o fewn y pwnc.
- Parhau i roi sylw i'r bwlch rhwng bechgyn a merched er mwyn gwella llythrennedd y bechgyn a fydd yn cau y bwlch yma.

| **Rhagorol** | X | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r PA yn arbenigwraig pwnc sydd yn ymwybodol o ofynion y Cwricwlwm fel a osodir allan yn y *Fframwaith Enghreifftiol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru,* a manylebion CBAC ar gyfer TGAU a'r Lefel A. Mae hefyd wedi elwa o hyfforddiant mewn swydd gan Cynnal ac yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf megis datblygu meddwl, llythrennedd ac asesu ar gyfer dysgu.
- Mae tystiolaeth o arsylwi gwersi gan yr Uwch Dim Rheoli'n dangos fod safon yr addysgu yn y pwnc yn rhagorol. Cadarnhawyd hynny gan Estyn yn ystod Tachwedd 2012.
- Mae'r Pennaeth Adran yn aelod o Gymunedau Dysgu Proffesiynol (ysgol a sirol) gyda chyfrifoldeb am ddewis meysydd i'w datblygu o fewn y pwnc, sef llythrennedd a chau'r bwlch rhwng bechgyn a merched.
- Mae amcanion a nodau dysgu clir a chyraeddadwy yn y cynlluniau gwaith manwl, a chyfeirir at y sgiliau hanfodol yn ogystal â sgiliau addysg grefyddol. Mae'r tasgau yn ddisgybl-ganolog sydd yn sicrhau eu bod yn gallu perchnogi eu dysgu ac ymfalchïo yn hynny.
- Sicrheir bod pob gwers yn cychwyn gyda sbardun diddorol sydd yn rhoi y disgyblion ar waith yn syth. Ymhellach i ddiweddu gwersi byth diweddglo priodol er mwyn i'r disgyblion allu myfyrio ar y wers ac ar y strategaethau dysgu.
- Mae'r dystiolaeth yn y llyfrau gwaith sy'n dangos defnydd cyson o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a datblygu meddwl yn gwneud y disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

- Mae hunan-asesu ac asesu cyfoedion trwy ddulliau metawybyddiaeth wedi dod yn arfer pwysig i'r disgyblion ac yn fodd i wella eu perfformiad a hybu myfyrio ar y broses ddysgu.
- Mae'r adran yn cynnig modelau i ddisgyblion ADY i'w cynorthwyo i gyrraedd y safon ddisgwyliedig a gwneud cynnydd. Darperir geirfa a thermau, fframiau ysgrifennu, taflenni gwahaniaethol a gweithio mewn grwpiau gallu cymysg.

**Materion i gael sylw**

- Ymestyn dysgwyr drwy gynyddu'r nifer o lefelau uwch ar ddiwedd CA3, gan roi sylw i'r dysgwyr 'Galluog a Thalentog'.
- Edrych am gyfleoedd i ddatblygu'r sgil Rhifedd o fewn y pwnc.

| **Rhagorol** | X | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae Addoli ar y Cyd yn yr ysgol yn cyd-fynd â'r gofynion statudol.
- Mae ansawdd Addoli ar y Cyd torfol yn dda iawn, yn canolbwyntio ar faterion cyfredol ac yn gyfle i atgyfnerthu negeseuon moesol pwysig. Mae'r gwasanaethau yn rhoi sylw i ddiwylliannau a chrefyddau eraill yn ogystal â Christnogaeth.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn dda. Caiff y disgyblion gyfle i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill, ac i ofyn cwestiynau sylfaenol bywyd yn y gwersi Addysg Grefyddol, Dyniaethau ac Iaith, yn y gwasanaethau boreol, drwy ymweliadau â gwahanol addoldai, a thrwy gefnogi gwahanol elusennau.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol yn dda. Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i hyrwyddo gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch, a gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Alun Llwyd (Pennaeth)

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2013

Enw'r Ysgol: **Ysgol O.M. Edwards, Llanuwchllyn**

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Mae arsylwadau gwersi yn dangos bod gan y disgyblion ddealltwriaeth ragorol yn y maes Addysg Grefyddol. Mae cyd-weithio clos rhwng yr ysgol â'r gymuned, a gwelir dilyniant rhwng themau yn yr ysgol a gwaith sy'n cael ei drafod ymhellach yn yr Ysgolion Sul.
Mae gan y disgyblion wybodaeth wych o'u cymuned. Maent yn ymuno a sefydliadau eraill a chyfranogi yn llwyr ym mywyd y pentref a thu hwnt.

Bron pob un o'r disgyblion hŷn yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn clybiau amrywiol sydd ynghlwm a chwaraeon, yr Urdd, coginio, garddio, dawnsio, a hefyd yn ymweld yn rheolaidd â chanolfan Hamdden y Bala i weithgareddau dawns, gymnasteg, nofio, karate a phêl droed.

Bu'r disgyblion yn plannu blodau o amgylch y pentref i hyrwyddo gwaith y Cyngor Eco ac i harddu a dangos parch tuag at eu hardal.

Cymerant ran arbennig yn y Gymuned drwy Eisteddfodau lleol ar Urdd, nosweithiau coffi Masnach Deg, Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Hen Gapel, yr Ysgol Sul yn yr Ysgoldy - Yr Awr Fawr, cyngherddau Nadolig ar Urdd, canu carolau, casglu sbwriel o gwmpas y pentref a gwahodd y gymuned i mewn i'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r disgyblion yn gyrru adroddiad i sylw'r Llywodraethwyr yn adrodd am eu gwaith ai penderfyniadau am sut i redeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae'r Cyngor Ysgol yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion wneud penderfyniadau pwysig a rhoi cyfrifoldeb iddynt ac yn eu gwneud iddynt deimlo ei bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae gwaith dyngarol y disgyblion yn dda gydag achosion megis Ysgol Jaleshwary, Nepal, cartref Sonrisa i blant yn Nepal, Bu'r disgyblion yn aros am 12 awr yn yr ysgol i godi arian tuag at achos da.
Pob gwasanaeth Diolchgarwch yn codi arian at achosion da - Ambiwlans Awyr Cymru, Nyrsys McMillan, Plant Mewn Angen, Haiti, Sefydliad Clefyd y Galon, Y Deillion.
Y disgyblion yn cymryd rhan flaenllaw yn y penderfyniad o ble mae'r arian yn mynd a pwy fydd yn derbyn cyfraniad.
Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn, fel y disgrifwyd yn yr arolwg diweddar.
Ceir unigolion yn llythyru ar Ysgol yn rheoliad i ganmol ymddygiad y disgyblion ar ymweliadau addysgol.
Mae eu hymddygiad a'u hagweddau'n adlewyrchu eu cyfranogiad llawn mewn dysgu ac wrth wneud penderfyniadau am eu bywyd yn yr Ysgol.
Mwynheir a llwyddir mewn gweithgareddau corfforol a gweithredol yn arbennig o dda.
Mae nifer o ymwelwyr ar ysgol wedi nodi fod ymddygiad, ymateb a sgwrs y disgyblion yn aeddfed a diddorol.
Llwydda'r athrawon i annog y disgyblion i ddangos parch at eraill, dangos gofal a phryder dros y plant iau yn yr ysgol, a derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith.
Mae'r disgyblion i gyd yn dangos parch tuag at eu gwaith ac mae eu llyfrau gwaith yn adlewyrchu hynny.

Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau heriau a nifer o'r disgyblion hynaf yn datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol gan gynnwys y sgiliau angenrheidiol i gynnal dysgu gydol oes.
Wrth i'r ysgol ddatblygu asesu ar gyfer dysgu, mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau ar gyfer gwella eu dysgu eu hunain ac yn cydweithio'n dda iawn gyda'u cymheiriaid, maent yn datblygu i fod yn llawer mwy hyderus yn eu dysgu.
Maent yn datblygu'r medrau i wella gwaith eu hunain, yn gweithio gydag eraill, datrys problemau a datblygu eu syniadau i symud ymlaen i gyfnod nesaf yn y dysgu.
Mae'r plant yn cyfrannu'n dda at benderfyniadau trwy'r Cyngor, y Cyngor Eco a thrwy gymryd cyfrifoldeb am wahanol weithgareddau

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae'r disgyblion yn arddangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd addoli, a phwysigrwydd mannau ac arteffactau arbennig i bobl o wahanol grefyddau.
Mae disgyblion yn gwybod am wyliau'r eglwys ac o arwyddocâd diwrnodau pwysig megis y Nadolig, y Pasg yn y ffydd Gristnogol.
Gwneir defnydd cynyddol o asesu ar gyfer dysgu i ymateb i waith disgyblion - e.e. 2 seren a dymuniad, marcio cyfoedion ayb.
Mae'r disgyblion yn gyfrifol am bennu meini prawf llwyddiant eu hunain yn y dosbarthiadau hŷn tra yn y Cyfnod Sylfaen mae'r disgyblion yn cyfrannu at bennu targedau yn dda.
Fel rhan o gynllun Asesu ar gyfer dysgu mae'r disgyblion yn dechrau cymryd rhan fwy gweithredol yng nghynllunio'r rhaglen waith ar gyfer y tymor.
Mae'r defnydd da o T.G.Ch mewn ymholiadau yn dda, i ganfod gwybodaeth a chyflwyno darn o waith.
Rhoddir cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfrannu yn llafar i drafodaeth ar gwestiynau moesol.
Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd yn y dosbarthiadau ac maent yn cyfrannu at ddatblygu agwedd bositif tuag at rannu problemau ac i deimlo empathi tuag at ei gilydd.
Mae cyswllt da yn datblygu rhwng yr ysgol ag elusennau dyngarol fel Cymorth Cristnogol, Operation Christmas Child, Plant Mewn Angen ayyb
Mae y disgyblion yn gwneud ymweliadau a'r eglwys , capeli a mannau arall o ddiddordeb crefyddol yn gyson.

**Materion i gael sylw**

☐
☐ Datblygu gallu disgyblion i gynllunio, datblygu ac adfyfyrio ar eu dysgu

**Ffordd ymlaen:**

**Materion i gael sylw**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Mae'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol yn dda. Mae'r holl staff yn hyderus yn eu rôl fel athrawon Addysg Grefyddol ac yn ymwybodol o ofynion statudol Addysg Grefyddol. Dysgir Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gan Mrs Siwan Davies ac ar dro fe gyd-weithiwn ac athrawon cyflenwi e.e Mrs Heledd Jones |

sydd ac arbenigeddau o fath gwahanol yn y pwnc. Dysgir Addysg Grefyddol yn CA2 gan Miss Rhian Llwyd Dafydd sydd yn athrawes Ysgol y Parc, engraifft arall o wneud defnydd o arbennigedd athro mewn ysgol a chyd-weithio da rhwng ysgolion cyfagos. Mae'r 3 wedi astudio Addysg Grefyddol ac yn athrawon Ysgol Sul brwdfrydig yn y pentref.

- Cynllunir yn seiliedig ar sail 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn yng Nghyfnod allweddol 2.
- 
- Rhoddir sylw i'r pwnc yn wythnosol yn y dosbarthiadau ac mae rhai themau yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu yn drwyadl am themau crefyddol megis, bedydd, y pasg. Dengys disgyblion CA1 ddealltwriaeth arbennig o waith y gweinidog lleol a beth yw pwrpas bedyddio a gallant siarad yn hyderus am bobl sy'n ein helpu ac at bwy y gallwn droi am gymorth. Mae disgyblion CA2 wedi ysgrifennu cerddi acrostig am y pasg sydd wedi eu canmol yn fawr am eu dealltwriaeth ysbrydol o'r Pasg a bydd gwaith rhai yn cael eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf Adran Addysg Grefyddol Prifysgol Bangor.
- Datblygir y maes 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol' yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 yn rhagorol. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion a'i gilydd. Drwy ddilyn athroniaeth Webster –Stratton a thrwy hynny maent yn dysgu gwerth bod yn ofalgar o'i gilydd. (Gweler arolwg Estyn) Mae system hyrwyddo ymddygiad da yma yn rhoi cyfle i bob plentyn gael eu canmol, a bod gwerth ar gyfraniadau pob unigolyn. Mae disgyblion yr ysgol yn mynegi barn bersonol yn dda ac yn siarad yn hyderus am eu profiadau ac agweddau crefyddol.
- Mae'r disgyblion yn dangos parch at eu gwaith ac mae'r llyfrau gwaith yn daclus a threfnus gan bawb. Gwneir defnydd llawn o wefannau megis Hwb i gyflwyno gwersi bywiog a gwahoddir pobl o'r gymdeithas neu fyd gwaith i mewn i ennyn trafodaethau byw.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

**Materion i gael sylw**

Angen gosod arian yn y gyllideb i ddiweddaru adnoddau

Angen sicrhau bod dilyniant yn y gwersi, yn arbennig pan fydd trefniadau rhwng dwy ysgol ac athrawes arall yn gyfrifol am ddysgu y pwnc.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓?? | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Mae'r ysgol yn darparu addoliad ar y cyd bob dydd i 'r holl ddisgyblion, fel arfer ar ddechrau y dydd. Mae gwasanaethau ysgol gyfan yn cael eu cynnal 3 diwrnod yr wythnos a gwasanaethau o fewn y dosbarthiadau ar y dyddiau eraill. Yn ystod y cyfnodau, byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth a her yn yr hyn gynigir i'r disgyblion. Bod profiadau o wrando a chymryd rhan yn weithredol i'r holl ddisgyblion. Drwy drafodaeth o themau crefyddol rydym yn meithrin ysbryd cymunedol yr ysgol ac yn hyrwyddo ethos bositif a gofalgar y plant o'i gilydd, gan

| |
|---|
| gryfhau gwerthoedd a lles yr unigolyn o fewn yr ysgol. Agwedd gafodd ei ganmol yn fawr yn yr arolwg Estyn diweddar.<br>Yn ystod yr addoliad byddwn yn rhoi amser i fyfyrio ar themau amrywiol eu naws a byddwn yn ceisio ysgogi y disgyblion mewn ffyrdd amrywiol e.e stori, papur newydd, clipiau fideo, posteri, llun, barddoniaeth, arteffact neu gân. Byddwn yn edrych a thrafod digwyddiadau o bwys yn y newyddion. Gwelwn werth hefyd mewn darllen storiau a dysgu adnodau o'r Beibl. Byddwn yn rhoi amser i gyd-weiddio, weithiau yn darllen, weithiau'n dawel ac weithiau'n adrodd o'r galon i eraill. Defnyddiwn emynau amrywiol i gyd-fynd â'r themau, gan geisio cyd-weithio a'r Ysgolion Sul, drwy ddysgu emynau newydd o'r detholiad yn flynyddol.<br><br>Mae cydweithio rhagorol gydag unigolion a thimau o bobl sy'n gweithio yn y gymuned. Daw Nia Roberts,(rheithor) Carwyn Siddall,(y gweinidog) Dr Owain Edwards a'i staff o goleg y Bala yma yn gyson, ynghyd ag ymweliadau ar dro gan bobl sy'n aelodau/swyddogion yn y capeli lleol. Gwyr y disgyblion pa rôl sydd gan grefydd i'w chwarae yn y gymuned a pha mor bwysig yw Cristnogaeth ym mywyd y pentref. Byddwn fel ysgol yn cynnal Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Hen gapel fel rhan o wythnos ddiolchgarwch yr Ofalaeth leol a bydd thema grefyddol yn rhan o'n Cyngerdd Nadolig yn flynyddol. Rydym hefyd yn hybu y disgyblion i gyd i gymryd rhan yn yr Ysgolion Sul, drwy drafod digwyddiadau a rhannu gwybodaeth a'r disgyblion.<br><br>Dilynnir gweithredoedd addoli ar y cyd ar sail Cristnogol yn bennaf yma, ond cyfeirir at gredoau eraill yn y Byd, gan roi'r pwyslais ar werthfawrogi yr amrywiaethau sydd yn y byd. Defnyddir storiau chwedlonol neu o draddodiadau gwahanol i Gymru yn ogystal, gan dynnu sylw at y negeseuon moesol sydd i'w trafod ynddynt. Gan ein bod yn gweithio'n agos iawn â gwlad Nepal, mae gan y disgyblion agwedd gadarnhaol ac iach iawn tuag at bobl o gefndiroedd, diwylliannau a chredoau gwahanol. |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd:** |

| **Rhagorol** | ✓ | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Cwblhawyd: Siwan Davies (Athrawes ddosbarth CS a chydlynydd pwnc)

Llofnod: Dilys Ellis-Jones (Pennaeth)

Dyddiad: Mehefin 24ain, 2013

**Enw'r Ysgol: Ysgol Dolbadarn**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae'r safonau Addysg grefyddol ym amrywio rhwng da neu'n dda iawn o fewn yr ysgol. Mae arsylwadau, yr arfarniadau wedi adnabod y cryfderau ynghyd â'r meysydd i'w datblygu.

Trwy amryw weithgareddau yn yr ysgol, ac yn allgyrsiol, mae cynnydd y disgyblion yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol yn dda. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais dda ar ddatblygu a hyrwyddo medrau cymdeithasol a medrau bywyd ymysg disgyblion ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf o blant yr ysgol yn meddu ar fedrau cymdeithasol a bywyd da megis pryder neu gonsyrn am eraill, parch a gofal, a gallant dderbyn cyfrifoldebau yn rhwydd, megis helpu staff, helpu yn ystod amser cinio a'r system 'Bydis Buarth'.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cynhwysfawr i bob un disgybl ddatblygu'n addysgol a chymdeithasol gan ymgymryd â chyfrifoldebau o fewn eu hoedran. Adlewyrchwyd hyn yn holiaduron rhieni gyda 94% yn cytuno a 58% yn cytuno'n llwyr bod eu plant yn cael eu datblygu'n gymdeithasol.

Mae bron pob un o'r plant yn gyfeillgar â'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r bron pob un yn cyd-dynnu'n dda iawn â'r athrawon ac aelodau eraill o'r staff.

•Mae llawer o lyfrau'r disgyblion yn dangos cynnydd dros y flwyddyn ac mae cofnodion asesu, targedu a thracio yn dangos cynnydd da iawn unigolion. Mae'r rhan fwyaf o'r Asesu ar Gyfer Dysgu a wna'r disgyblion ynghyd a'r cynllun cywiro a ddefnyddir gan yr athrawon wth ymateb i waith disgyblion yn golygu bod y disgyblion yn ymwybodol o safon eu gwaith a'r hyn sydd ei angen i'w wella. Disgyblion yn adfyfyrio ar eu dysgu eu hunain yn dda iawn. Mae'r holl ddisgyblion yn adnabod Meini Prawf Llwyddiant ac wedi arwain at godi safonau. Hyn yn weladwy yn llyfrau'r disgyblion - disgyblion llawer iawn fwy hunangynhaliol.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r plant wedi cael straeon amrywiol o'r Beibl ynghyd a stori Palesa yn Lesotho a gweld sut mae o yn addoli. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi holi Pam fod Iesu Grist wedi marw yn Stori'r Pasg a mae bron bob un wedi cynnig syniad sut allwn gadw Llanberis yn daclus. Trafodwyd Iddewiaeth a'r Wyl Pesach a mae'r mwyafrif yn deall cynnwys y plat seder. Mae llawer wedi Trafod Masnach deg yn llwyddiannus. Rydym wedi bod yn trafod- Beth sy'n gwneud ffrind da a mae bron bob un yn deall beth sy'n gwneud ffrind da. Rydym yn cynnal sesiynau Amser Caleb ac Ysgol Dina a mae llawer o'r plant yn elwa o hyn. Mae bron bob un o'r plant yn gallu rhoi cynnig ar syniadau i ysgrifennu gweddi Diolch. Rydym wedi cael Ymweliad gan y parch carol Roberts i gynnal seremoni bedyddio a dangoswyd arteffactau crefyddol. Cafwyd ymweliad ar eglwys ar capel a roedd y rhan fwyaf o'r plant yn gallu cymharu y ddau adeilad ar ffordd o addoli.

Yng CA2 mae'r disgyblion yn cael cyfnodau rheolaidd i ofyn cwestiynau am grefydd e.e Pam fod pobl yn mynd ar bererindod? Beth yw cristion? Beth yw heddwch? Maent yn defnyddio eu profiadau eu hunain ac eraill i ganfod atebion e.e Parchedig John Pritchard/ Y we a llyfrau o bob math. Mae'r plant wedi astudio pererindod sy'n perthyn i wahanol grefyddau yn ogystal a disgrifio eu pererindod delfrydol hwy eu hunain e.e lan y mor neu goedwig.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwybod ble mae cyrchfannau Pererinion yng Nghymru gan chwilio am dystiolaeth. Gallent egluro ac ysgrifennu o'u profiad ' Beth ydy siwrnai a phwrpas arbennig iddi' gan egluro yn dderbyniol bwrpas yr ymweliad a sut roeddent yn teimlo cyn mynd, a beth a ddysgodd y disgyblion amdanynt ei hunain o'r profiad. Roedd bron bob un yn deall pam fod pobl yn mynd ar bererindod, beth oedd eu cymhelliant gan werthfawrogi bod amrywiol grefyddau yn gwneud hyn mewn amrywiol ffyrdd. Archwiliwyd a gwnaed defnydd da o ystod o arteffactau crefyddol ac anghrefyddol i geisio amgyffred beth fyddai anghenion pererin ar bererindod. Mynegi barn a chwestiynau effeithiol gan y rhan fwyaf o'r disgyblion. Teimlwyd fod y gwaith o geisio deall beth fyddai arferion a defodau crefyddol y Cristion yn heriol ac yn diwallu anghenion unigol pob plentyn.Cafwyd gwaith cynhwysfawr gan fwyafrif y disgyblion. Defnyddiwyd ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol ar gyfer y gweithgareddau. Defnyddiwyd amrywiaeth o strategaethau a gweithgareddau amrywiol. Bu'r bererindod oddi amgylch yr ysgol yn llwyddiannus gydag ymateb da i'r gweithgareddau. Llwyddwyd i gael gwaith ysgrifennu estynedig effeithiol iawn gan y rhan fwyaf. Dangosodd rai o'r gweiniaid afael sicr o'r hyn a ddysgwyd.

Drwy dasgau amrywiol wrth drafod y cwwestiwn 'Sut a pham mae gwahanol grefyddau'n diolch' mae rhan fwyaf o'r plant wedi deall pwrpas y gwyliau Eid ul Fitr/ Gwyl Sukkot/ Gwyl Diolchgarwch.

Mae'r mwyafrif wedi deall pwysigrwydd y gwyliau i ddilynwyr a mae bron bob un wedi deall effaith gwyliau ar ffordd o fyw. Mae

| |
|---|
| y mwyafrif wedi deall pwysigrwydd rhai rheolau o’r Beibl, Torah a’r Quran i ddilynwyr. |
| **Materion i gael sylw**<br>Mwy o brofiadau rhyngweithiol neu ymweliadau i gefnogi’r addysgu e.e. unigolion i’r gwasanaeth/ ymweliadau i gefnogi’r addysgu/ ymweliadau ir dosbarth o grefyddau eraill. Archebu Coleg y Bala ar gyfer y Pasg nesaf.<br>Archebu adnoddau perthnasol ar gyfer y disgyblion e.e setiau o feiblau ar gyfer darllen grwp.<br>Parhau i gydgynllunio i sicrhau fod dilyniant yn y tasgau a gyflwynir i wahanol oedrannau.<br>Paratoi llyfrau darllen dosbarth Addysg Grefyddol.<br>Mwy o bwyslais ar ddysgu sillafu geirfa crefyddol sy’n codi yn y themau.<br>Wrth gwestiynu mae angen meithrin y disgyblion i feddwl yn fwy ymestynnol a heriol. O ddod i arfer hyn byddai’r gwaith trafod o fewn grwpiau/ dosbarth yn codi mewn safon. Y goreuon i gael eu hymestyn wrth baratoi rhaglen waith iddynt fel y byddai modd iddynt gario mlaen a rhai gweithgareddau/ ymchwiliadau ymestynnol. |

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i’r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a’r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a’u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth ‘Pobl, Credoau a Chwestiynau’ ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a’r Maes Llafur Cytûn Lleol |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**<br>•Cynlluniau wedi eu hadolygu a chynlluniau tymor hir yn eu lle/(adolygwyd Medi 2011). Cynlluniau tymor byr o ansawdd da yn dilyn trywydd y plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a Ca2. Adeiladir ar fedrau’r disgyblion wrth iddynt symud o’r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.Cynlluniau da a phwrpasol yn codi safon yr addysgu a’r dysgu.<br>•Cyfoethogir profiadau plant yn y CS a CA2 trwy gyfuniad da o waith ar ac oddi ar y safle, trwy ymweliadau amrywiol addysgol ac ymwelwyr amrywiol sy’n ymwneud a themâu’r dosbarthiadau. Mae’r profiadau yma yn ardderchog, yn ychwanegu at ddealltwriaeth ac ehangu profiadau’r disgyblion drwy hybu’r athroniaeth o ddysgu drwy brofiad cinesthetig - (tystiolaeth - Portffolio ethos a phrofiadau yn y Cyfnod Sylfaen).<br>Mae cynllun ABaCH a’r pwyslais amlwg a roddir ar addysgu am foesoldeb yn datblygu holl ddisgyblion i fod yn ddinasyddion goddefgar a chyfrifol.<br>Mae tasgau athrawon wedi eu cynllunio’n bwrpasol i roi cyfleodd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau creadigol, datrys problemau, a medrau meddwl ar draws y maes. Mae amrywiaeth o dechnegau ac offerynnau medrau meddwl a defnyddir yng NgA2 a'r Cyfnod Sylfaen yn dda gydag elfennau da iawn.<br>Ar draws yr ysgol mae’r athrawon a’r staff addysgu yn gwahaniaethu'n dda ar gyfer gwahanol allu er mwyn cefnogi grwpiau ac unigolion. Mae’r disgyblion yn gweithio ar eu lefel gyda’r staff addysgu yn eu herio’n dda iawn. Dengys arsylwadau bod pob dosbarth a llyfrau gwaith y disgyblion bod gwahaniaethu’n dda o fewn Addysg Grefyddol. |
| **Materion i gael sylw**<br>•Parhau i ddiwygio'r portffolio gan roi sylw i fedrau meddwl yn y gweithgareddau.<br>•Dulliau o sicrhau fod yr holl ystod gallu yn cael eu hymestyn yn briodol a bod lefel addas o her yn galluogi rhagoriaeth<br>•Sicrhau bod y MPLL penodol ar gyfer sgiliau’r MAes - tueddiad yn rhai o’r gwersi i fod yn ieithyddol yn hytrach na chrefyddol |

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Addoli ar y Cyd |
|---|

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>•Mae naws ysbrydol arbennig i'n gwasanaethau ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw a thrwy rannu teimladau ar y pryd. Mae dosbarthiadau yn eu tro yn creu gwasanaeth efo naws ysbrydol neu foesol ar Ddydd Gwener.<br>•Cynhelir sesiynau Amser Cylch effeithiol yn rheolaidd ym mhob dosbarth a sicrheir cyfleoedd da i fyfyrio, holi a rhyfeddu.. 83% o'r disgyblion yn credu eu bod yn cael cyfle i leisio barn neu drafod problemau- sy'n dangos elfen dda iawn o safbwynt partneriaeth a llais y plentyn<br><br>•Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda iawn. Cant gyfleoedd drwy gynllun ABaCh i fyfyrio ar gwestiynau mawr y byd, ac mae eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o arferion a storïau Cristnogol yn dda. Mae dysgu am gredoau neu grefyddau eraill yn dda yn yr ysgol.<br>•Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol y disgyblion yn dda iawn. Rhoddir pwyslais amlwg ar barch, tegwch a gonestrwydd. Defnyddir storïau mewn cyfnodau amser cylch, gwersi ABaCH a chyfnodau cyd addoli/ gwasanaethau i drafod materion sydd yn annog trafodaethau sy'n gywir ac anghywir. Gwobrwyir y nodweddion hyn yn y gwasanaeth gwobrwyo wythnosol. Gosodir sylfeini cadarn gan gynllun Ysgol Dina ac Amser Caleb. Prosiect Ysgol Dina Bach i atgyfnerthu gwerthoedd efo carfan ddethol o ddisgyblion<br>•Cynhelir cyfnodau cyd - addoli rheolaidd, yn dorfol ac yn y dosbarthiadau er mwyn sicrhau bod yn cwrdd â'r gofynion statudol. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>**•Lle i strwythuro amser cylch** | | |

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Siw Brookes

Dyddiad: Mehefin 2013

**Enw'r Ysgol: CEFN COCH, PENRHYNDEUDRAETH.**

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Y Cyfnod Sylfaen

Mae gallu'r rhan fwyaf o'r dysgwyr i alw i gof ac ymateb i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yn datblygu'n dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen. Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn gallu siarad am eu gwaith ac awgrymu mewn termau syml pam bod rhai agweddau ar grefydd yn bwysig i rai pobl – e.e. wrth ymdrin â'r thema 'Pen Blwydd Iesu Grist.' Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae ychydig o'r dysgwyr yn llwyddo i ddisgrifio rhai o'r credoau, dysgeidiaethau a'r arferin crefyddol – e.e. Iesu Grist yn anrheg i'r byd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn gallu mynegi ymatebion personol gan siarad am eu teimladau a'u profiadau eu hunain – e.e. wrth ymdrin â'r thema 'Edrych ar ôl ein Byd.' Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae llawer o'r dysgwyr yn gofyn cwestiynau am agweddau ar grefydd – e.e. 'holi' cymeriadau o hanes y Nadolig Cyntaf, ac yn llwyddo i awgrymu rhai atebion syml yn ogystal. Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr hefyd yn barod i gynnig eu barn wrth drafod 'cwestiynau mawr' megis 'Ydy Iesu Grist yn mwynhau ei barti pen blwydd ?' ac 'Ydw i'n diolch digon?' Datblygir gallu'r rhan fwyaf o'r dysgwyr i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ond addas ar draws y Cyfnod Sylfaen.

Cyfnod Allweddol Dau

Yng ngwaelod CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu galw i gof a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymchwilir iddynt – e.e. wrth ymchwilio i'r 'cwestiwn mawr' 'Pam bod bwyd mor bwysig i gredinwyr?' Mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu disgrifio sut mae'r agwedd sydd o dan sylw yn gallu effeithio ar fywyd credinwyr o wahanol grefyddau. Mae ychydig o'r dysgwyr yn gallu nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y crefyddau.

Yng ngwaelod CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain ac awgrymu rhai atebion posibl - e.e. wrth ymdrin â'r thema 'Beth sy'n creu hapusrwydd?' Mae llawer o'r dysgwyr yn llwyddo i drafod y cwestiwn / cwestiynau hyn gan gyflwyno gwahanol syniadau.

Yng ngwaelod CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu siarad am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu disgrifio eu barnau a'u teimladau gan gynnig sylwadau am safbwyntiau eraill. Mae ychydig o'r dysgwyr yn dechrau esbonio sut mae eu teimladau a'u barnau yn wahanol i rai pobl eraill.

Yng ngwaelod CA2 datblygir gallu'r rhan fwyaf o'r dysgwyr i ddefnyddio geirfa grefyddol addas ac mae llawer ohonynt yn cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol.
Erbyn brig CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu disgrifio rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymwchwilir iddynt – e.e. wrth ymdrin â'r cwestiwn ''Sut a pham bod credinwyr yn gofalu am eraill?'' Mae llawer ohonynt yn gallu esbonio pam bod credinwyr yn credu ac yn gweithredu fel y gwnânt gan lwyddo i roi enghreifftiau penodol i ategu hyn. Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn gallu nodi'r hyn sy'n debyg ac sy'n wahanol rhwng gwahanol grefyddau. Mae ychydig o'r dysgwyr yn llwyddo i wneud cysylltiadau rhwng gwahanol grefyddau.

Erbyn brig CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu trafod cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan gynnig eu barnau eu hunain - e.e. wrth ymdrin â'r ymholiad athronyddol ''Sut mae bod yn dda ?'' Mae llawer o'r dysgwyr yn gallu trafod eu hymatebion ac ychydig ohonynt yn llwyddo i gyfiawnhau syniadau.

Erbyn brig CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn gallu cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn llwyddo i esbonio sut mae eu barnau a'u teimladau yn wahanol i rai pobl eraill.

Erbyn brig CA2 datblygir gallu'r rhan fwyaf o'r dysgwyr i ddefnyddio ystod o eirfa grefyddol addas ac i adnabod rhai symbolau crefyddol.

**Materion i gael sylw**

Safonau cyflawniad dysgwyr yr haen uwch drwy'r ysgol yn fesuradwy yn erbyn gofynion y deilliannau / lefelau uwch.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â Phobl, Credoau a Chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Maent yn deall y dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau drwy ganolbwntio ar yr ystod canlynol : mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol; archwilio dylanwad crefydd ar fywydau pob a'i allu i roi arweiniad; gofyn cwestiynau; ymchwilio a mynegi ystyr drwy arwyddion a symbolau; mynegi ymatebion personol; archwilio cyfrifoldebau; archwilio cwestiynau mwy cymhleth.

Yn yr un modd mae athrawon CA2 yn gyfarwydd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr. Maent yn ymwybodol y dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau trwy ryngberthynas tri sgil craidd y pwnc sef 'Ymdrin â'r Cwestiynau Sylfaenol,' 'Archwilio Credoau, Dysgeidiaethau ac Arferion Crefyddol' a 'Mynegi Ymatebion Personol.' Maent yn deall yn ogystal y dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau drwy ganolbwyntio ar yr ystod canlynol : 'Y byd,' 'Profiad dynol,' a 'Chwilio am ystyr.'

Mae'r dysgwyr i gyd yn derbyn gwers Adysg Grefyddol yn wythnosol, yn unol â'r gofynion statudol.

Dilynodd cydlynydd Dyniaethau'r ysgol hyfforddiant HADA eleni ( 2012/2013.) Cafodd fudd mawr o'r 5 diwrnod o greu cymuned ddysgu broffesinol yn y maes Dyniaethau gydag Addysg Grefyddol yn rhan annatod o'r hyfforddiant. Rhaeadrodd wybodaeth mewn cyfarfodydd staff dilynol.

Mae gweithgareddau ffocws ar draws y Cyfnod Sylfaen wedi'u cynllunio'n fwriadus ac yn fanwl – e.e. themâu 'Pen Blwydd Iesu Grist,' 'Priodas' a 'Dweud Diolch.' Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen caiff y dysgwyr eu hunain gyfleoedd i 'gynllunio' gweithgareddau i gyfoethogi'r ardaloedd dysgu sy'n cyd-blethu ac yn atyfnerthu'r tasgau ffocws.
Yn yr un modd mae cynlluniau CA2 yn fanwl ac yn fwriadus ac yn sicrhau trefn a dilyniant. Mae rhoi sylw i Gwestiynau Mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau datblygiad yn sgiliau ymholi y dysgwyr.

Mabwysiadwyd 'Asesu ar Gyfer Dysgu' fel arf i godi safonau yn yr ysgol. Dyma gnewyllyn ein system hunan arfarnu pan edrychir ar waith dysgwyr ac mewn arsylliadau dosbarth. O'r herwydd mae'r athrawon i gyd yn ymwybodol o'r elfennau hanfodol sy'n cyfrannu at addysgu a dysgu effeithiol. Dyma'r hyn yr edrychir amdano felly wrth arsyllu gwers neu dasg Addysg Grefyddol yn y dosbarthiadau ac yr edrychir am dystiolaeth ohono yn llyfrau'r dysgwyr wrth fonitro eu gwaith :

- meini prawf dysgu
- cwestiynu
- rhoi ac ymateb i adborth
- asesu / hunan asesu / asesu cyfoedion
- defnyddio'r wybodaeth a ddaw o asesu er mwyn symud y dysgwyr yn eu blaenau.

Defnyddir dulliau 'Medrau Meddwl' fel camau i ysbrydoli'r dysgwyr wrth iddynt ymdrin â chwestiwn mawr neu bwnc penodol o fewn Addysg Grefyddol. Cynlluniwyd y rhain yn ofalus i sicrhau amrywiaeth a dilyniant ac er mwyn osgoi ail adrodd yr un dull yn ormodol.

Mae'r ysgol yn defnyddio system dracio cynnydd 'Incerts' ar gyfer pob disgybl. Mae hwn yn galluogi'r athrawon i fwrw golwg ar gyraeddiadau'r dysgwr wyneb yn wyneb â gofynion y deilliannau / y lefelau. Wrth reswm mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r un system dracio.

Defnyddir amrediad eang o ddeunyddiau i gyfoethogi'r themâu a astudir: llyfrau stori, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau ag addoldai, ymwelwyr yn dod i'r ysgol a.y.y.b.

**Materion i gael sylw**

Sicrhau fod y tasgau a ddarperir gogyfer â dysgwyr yr haen uwch drwy'r ysgol yn taro llinynnau pendant o fewn gofynion y deilliannau / lefelau uwch.

Parhau i sicrhau fod y meini prawf llwyddiant a osodir yn rhai cydnaws â gofynion y Fframwaith Addysg Grefyddol.

Ystyried 'symleiddio' ieithwedd' lefelau Addysg Grefyddol i ddysgwyr CA2 fel y gallant hwy hunan asesu eu gwaith eu hunain/ asesu cyfoedion yng ngoleuni'r lefelrwydd yma.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

## Addoli ar y Cyd

<table>
<tr><td colspan="3">Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?</td></tr>
<tr><td>Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?</td><td>Ydy ✓</td><td>Nac ydy</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd<br>Rydym yn darparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr, yn unol â'r gofyniad statudol.<br>Mae darpariaeth yn bodoli i ddysgwyr gael eu neilltuo o weithredoedd addoli ar y cyd, ar gais rhieni.<br><br>Cynhelir yr addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth, cyfnod allweddol neu ysgol gyfan. Rydym yn anelu at i'r dysgwyr deimlo fod ein cyfnodau o addoli ar y cyd yn amseroedd 'arbennig' sydd ar wahân i weithgareddau arferol y dosbarth neu'r ysgol. Gwneir hyn drwy agor Beibl / goleuo cannwyll/ tywyllu'r ystafell...<br><br>Mae'r mwyafrif llethol o'n gweithredoedd addoli ar y cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol.<br>Yn ystod yr addoliad ar y cyd bydd y dysgwyr yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol :<br>• Myfyrio - trwy wrando a gwylio.<br>• Ymateb – nid adegau i fod yn oddefol mo'n cyfnodau o addoli ar cyd.<br>• Darllen.<br>• Chwarae rôl<br>• Gweddïo - yn dawel / o'r frest / Gweddi'r Arglwydd.<br>• Canu - emynau.<br>Teimlwn fod addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniad pwysig at ddablygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwyllannol y dyswyr.<br>Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar AbaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig yn ystod ein cyfnodau o addoli ar y cyd.<br><br>Byddwn yn croesawu unigolion o fudiadau crefyddol i'r ysgol i gynnal gwasanaethau - e.e. Nia o Goleg y Bala. Yn ogystal bydd y dysgwyr yn cynnal gwasanaethau arbennig mewn addoldai yn y gymuned - gwasanaethau Diolchgarwch ac Ewyllys Da.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd<br><br>Adolygu'r cynllun addoli ar y cyd a luniwyd er mwyn sicrhau amrywiaeth a chydlynedd yn y gweithgareddau.</td></tr>
</table>

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: Rhys M Glyn (Pennaeth)

Dyddiad: 01 / 07 / 13

**Enw'r Ysgol:Baladeulyn**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae gofal yn yr ysgol yn arbennig o dda.
- Mae'r ysgol yn gymuned agos gyda'r athrawon a chymorthyddion yn barod i hyrwyddo lles y disgyblion yn dda iawn.
- Mae'r plant yn hapus i siarad yn agored gyda'r staff .
- Mae trefniadau'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda iawn.Rhoddir sylw i'r amgylchedd a hanes lleol yn ogystal a chymeryd rhan yn yr Eisteddfodau lleol.
- Mae'r cynllun ABCH ar waith sydd yn hyrwyddo dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda iawn.

  Gwelir esiamplau o hyn yn reolaidd e.e. Swyddog Cyswllt ysgolion,casglu tuag at elusennau.
- Rhoddir bwyslais ar farn y plentyn sydd yn amlygu'i hun yn y cynghorau dosbarth a'r holiaduron.
- Rhoddir pwyslais ar greu awyrgylch dderbyniol,braf sydd yn hybu ymateb bositif,gweithgar gan y plant a'r athrawon yn yr amgylchedd dysgu.
- Byddwn yn sicrhau fod cyleoedd cyfartal I bawb yn yr ysgol.

**Materion i gael sylw**

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r ysgol yn gymuned glos lle mae cyfle cyfartal i bawb fod yn rhan weithredol ym mywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r plant yn datblygu sgiliau a gwerthoedd megis parch, gofal, cyfrifoldeb a chonsyrn drwy ein cynlluniau a'n gweithgareddau dyddiol.
- Mae'r plant yn gyfeillgar â'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae perthynas ardderchog rhwng y plant a staff yr ysgol.
- O dan weithdrefnau Addysg Grefyddol a gwaith ABACh yr ysgol, daw'r disgyblion yn ymwybodol o wahaniaethau o fewn y gymdeithas. Mae eu dealltwriaeth o'r gymdeithas ehangach yn cael ei gryfhau drwy'r amrywiaeth eang o ymwelwyr yn dod i'r ysgol yn rheolaidd e.e nyrs, dyn tân, plismones, criw diogelwch y ffordd, Carys Ofalus fel bod eu sgiliau cymdeithasol yn dda iawn.
- Dengys y plant barch at reolau, yn gofalu am ei gilydd ac yn barod i drafod eu teimladau. Mae ei hunan hyder

a'u hunan ddelwedd wedi datblygu'n dda iawn.

- Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda iawn ac maent yn gymwys i'w gyflwyno.
- Mae'r ysgol wedi cael ei achredu'n Ysgol Fasnach Deg gydag adroddiad ardderchog sydd yn nodi ei bod yn amlwg fod yr ysgol a'r plant "O ddifrif"gyda'r gwaith.Mae ymwybyddiaeth y plant o ADCDF wedi datblygu'n dda iawn drwy hyn.Cynllunir ar gyfer "Pobl,Credoau a Chwestiynau" ochr yn ochr a "Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd" yn y CS.
- Mae arsylwi rheolaidd wedi'w gynllunio a dangosir arsylwadau fod arferion da yn cyfrannu i ansawdd y gwersi.Mae hyn wedi cyfoethogi'r profiadau mae'r plant yn gael a'r sgiliau maent yn ddatblygu yn dda.

**Materion i gael sylw**

- . Mae'r ysgol angen datblygu cysylltiadau rhyngwladol er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant ymhellach.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae'r gwasanaethau ysgol a dosbarth yn ogystal ag amser cylch yn rhoi cyfle cyfartal i bawb gymryd rhan ac yn codi hunan hyder pob plentyn.
- Cynhelir sesiynau Amser Cylch ar y cyd yn rheolaidd.Yma bydd y plant yn myfyrio,yn rhannu teimladau a syniadau yn effeithiol iawn.
- Ceir gwasanaethau rheolaidd ar y cyd neu yn y dosbarthiadau sydd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion.Mae trefniadau addoli yn cyfarfod a'r gofynion statudol.
- Mae ABaCh wedi'w blethu i mewn i fywyd bob dydd yr ysgol fel bod gwerthoedd bywyd yn cael eu atgyfnerthu'n feunyddiol yn dda iawn.
- Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygiad synnwyr o gyfrifoldeb yn dda iawn tra bydd y disgyblion yn cymdeithasu, yn ymwneud a'u profiadau dysgu ac yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mwy o gyfleoedd i'r gweinidog ymweld ac i gynnal gwasanaethau efo'r plant.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Esme Spencer (Pennaeth)

Dyddiad: 10/10/13

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

# Religious education in secondary schools

# Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y nod – The corporate standard – Health at Work

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

# Background Cefndir

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- The report is a 'state of the nation' report on religious education (RE) at key stages 3 and 4 in secondary schools
- 20 secondary schools visited: senior leaders and RE coordinators interviewed; pupils interviews; lessons observed in key stages 3 and 4; schemes of work, department self-evaluations, department plans and pupils' books scrutinised.
- Relevant data for Wales and UK analysed.

- Mae'r adroddiad yn adroddiad 'cyflwr y genedl' am addysg grefyddol (AG) yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 mewn ysgolion uwchradd
- Ymwelwyd ag 20 o ysgolion uwchradd: cyfwelwyd ag uwch arweinwyr a chydlynwyr AG; cyfweliadau â disgyblion; arsylwyd gwersi yng nghyfnodau allweddol 3 a 4; craffwyd ar gynlluniau gwaith, hunanarfarniadau adrannau, cynlluniau adrannau a llyfrau disgyblion.
- Dadansoddwyd data perthnasol ar gyfer Cymru a'r DU.

# Background Cefndir

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- Every secondary school must by law provide religious education for all its pupils as a requirement of the basic curriculum at key stage 3 and key stage 4.
- This provision must follow the relevant local agreed syllabus for religious education.
- Church schools that provide ‘denominational education’ were not included in the sample of schools visited.
- The last Estyn report on RE was published in 2000 and focused on key stages 1 and 2.

- Mae’r gyfraith yn mynnu bod rhaid i bob ysgol uwchradd ddarparu addysg grefyddol ar gyfer pob un o’i disgyblion fel gofyniad o’r cwricwlwm sylfaenol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.
- Rhaid i’r ddarpariaeth hon ddilyn y maes llafur cytûn lleol perthnasol ar gyfer addysg grefyddol.
- Ni chynhwyswyd ysgolion eglwysig sy’n darparu ‘addysg enwadol’ yn y sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw.
- Yn 2000 y cyhoeddwyd adroddiad diwethaf Estyn ar AG, ac roedd yn canolbwyntio ar gyfnodau allweddol 1 a 2.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- GCSE courses in religious studies have gained in popularity over recent years. More pupils gain a qualification in religious education than in any other non-core subject in Wales.
- Attainment in the full GCSE course in religious studies has risen steadily over the last five years. The percentage of pupils attaining grades A* to C in religious studies is well above the average for other subjects.
- Attainment in Wales is broadly similar to that for the UK as a whole.

- Mae cyrsiau TGAU mewn astudiaethau crefyddol wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mwy o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn addysg grefyddol nag mewn unrhyw bwnc di-graidd arall yng Nghymru.
- Mae cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol wedi codi'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A* i C mewn astudiaethau crefyddol ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer pynciau eraill.
- Mae cyrhaeddiad yng Nghymru yn weddol debyg i gyrhaeddiad ar gyfer y DU gyfan.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- Attainment in the short GCSE course in religious studies has fallen over the last five years, although it recovered slightly in 2012.
- In spite of this fall, the percentage of pupils attaining grades A* to C in Wales has remained consistently better than for the UK as a whole.
- A significantly higher percentage of girls attain grades A* to C than boys in both the full course and short GCSE courses in religious studies, and the gap is wider in Wales than for the UK as a whole.

- Mae cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, er iddo godi ychydig yn 2012.
- Er gwaetha'r gostyngiad hwn, mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A* i C yng Nghymru wedi aros yn gyson well na chanran y DU gyfan.
- Mae canran gryn dipyn yn uwch o ferched yn ennill graddau A* i C na bechgyn ar y cwrs llawn a'r cyrsiau TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol, ac mae'r bwlch yn ehangach yng Nghymru nag ar gyfer y DU gyfan.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- Teacher assessment of pupils' performance in religious education at the end of key stage 3 is not included in the Welsh Government core data sets that cover other National Curriculum subjects and not published nationally in any other way that would enable an analysis of standards at key stage 3 or progress between key stages.
- In the schools visited for this survey, lesson observations and pupils' work show that standards are good in a majority of schools at key stage 3.

- Nid yw asesiadau athrawon o berfformiad disgyblion mewn addysg grefyddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 wedi'u cynnwys yn setiau data craidd Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â phynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac nid ydynt wedi'u cyhoeddi'n genedlaethol mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n galluogi dadansoddi safonau yng nghyfnod allweddol 3 neu gynnydd rhwng cyfnodau allweddol.
- Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, mae arsylwadau o wersi a gwaith disgyblion yn dangos bod safonau yn dda mewn mwyafrif o ysgolion yng nghyfnod allweddol 3.

# Main findings

# Prif ganfyddiadau

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- Most pupils following the full GCSE course in religious studies at key stage 4 make good progress and a slightly lower proportion of pupils studying the short course also make good progress.
- Where pupils are not following an examination course at key stage 4, standards in lessons are rarely better than adequate. In these lessons, a minority of pupils misbehave. This suggests that they do not value the lessons and this may be because they do not lead to a qualification.

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da, ac mae cyfran ychydig yn is o ddisgyblion sy'n astudio'r cwrs byr yn gwneud cynnydd da hefyd.
- Lle nad yw disgyblion yn dilyn cwrs arholiad yng nghyfnod allweddol 4, anaml y mae safonau mewn gwersi yn well na digonol. Yn y gwersi hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn camymddwyn. Mae hyn yn awgrymu nad ydynt yn gwerthfawrogi'r gwersi, a gallai hyn fod am nad ydynt yn arwain at gymhwyster.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

- Almost all pupils in the lessons observed showed respect for the opinions and beliefs of others. Many pupils value what they learn in religious education and understand how it contributes to their personal and social development.
- Pupils enjoy considering their own views, and discussing them with peers. They are prepared to talk about a variety of issues relating to religion and ethics and take part in lessons enthusiastically.

- Roedd bron pob un o’r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn dangos parch at farnau a chredoau pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi’r hyn maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol, ac yn deall sut mae’n cyfrannu at eu datblygiad personol a chymdeithasol.
- Mae disgyblion yn mwynhau ystyried eu barnau eu hunain, a’u trafod gyda’u cyfoedion. Maent yn barod i siarad am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chrefydd a moeseg, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

- Teaching was good or better in just over two-thirds of the lessons observed for this survey. These findings suggest that teaching in religious education is better than average for teaching across all subjects in secondary schools inspected since 2010.
- Many secondary schools use non-specialist teachers to teach religious education. Non-specialist teachers do not have a negative impact on standards in the majority of schools.

- Roedd yr addysgu yn dda neu'n well mewn ychydig dros ddwy ran o dair o'r gwersi a arsylwyd ar gyfer yr arolwg hwn. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr addysgu mewn addysg grefyddol yn well na'r cyfartaledd ar gyfer addysgu ar draws yr holl bynciau mewn ysgolion uwchradd a arolygwyd er 2010.
- Mae llawer o ysgolion uwchradd yn defnyddio athrawon anarbenigol i addysgu addysg grefyddol. Nid yw athrawon anarbenigol yn cael effaith negyddol ar safonau yn y mwyafrif o ysgolion.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- In the majority of schools, teachers provide pupils with useful feedback, both oral and written, that enables them to understand their progress and how to improve their work.
- Teachers generally have a very good understanding of GCSE requirements, but few have an accurate understanding of the levels of pupil performance at key stage 3 set out in the national exemplar framework.

- Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy’n eu galluogi i ddeall eu cynnydd a sut i wella eu gwaith.
- Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth dda iawn gan athrawon o ofynion TGAU, ond ychydig sydd â dealltwriaeth gywir o lefelau perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a amlinellir yn y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- The local agreed syllabuses across Wales are very similar, being based on the national exemplar framework. Almost all schools meet the requirements of their local agreed syllabus. However, a very few schools do not meet the requirements at key stage 4 either because they do not give enough time to cover the syllabus or because, occasionally, lessons are used predominantly to help pupils gain a non-subject qualification such as an Essential Skills Wales qualification.

- Mae'r meysydd llafur a gytunir yn lleol ar hyd a lled Cymru yn debyg iawn, gan eu bod yn seiliedig ar y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol. Mae bron pob un o'r ysgolion yn bodloni gofynion eu maes llafur cytûn lleol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ysgolion yn bodloni'r gofynion yng nghyfnod allweddol 4 naill ai am nad ydynt yn rhoi digon o amser i ymdrin â'r maes llafur, neu oherwydd weithiau mae gwersi'n cael eu defnyddio'n bennaf i helpu disgyblion ennill cymhwyster heb fod yn gymhwyster pwnc, fel cymhwyster Medrau Hanfodol Cymru.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- In the majority of schools, effective subject leaders set high expectations within the department, monitor other religious education teachers closely, provide appropriate support and challenge, and delegate aspects of leadership and management.
- Self-evaluation is good or better in only a minority of religious education departments.  Only a minority of departments analyse internal examination data thoroughly in order to plan for improvement.

- Yn y mwyafrif o ysgolion, mae arweinwyr pwnc effeithiol yn gosod disgwyliadau uchel o fewn yr adran, yn monitro athrawon addysg grefyddol eraill yn fanwl, yn cynnig cymorth a her briodol, ac yn dirprwyo agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Dim ond mewn lleiafrif o adrannau addysg grefyddol y mae hunanarfarnu yn dda neu'n well.  Dim ond lleiafrif o adrannau sy'n dadansoddi data arholiadau mewnol yn drylwyr er mwyn cynllunio ar gyfer gwella.

# Main findings
# Prif ganfyddiadau

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- The lack of opportunities for professional development and learning networks means that good practice is not shared enough and challenges, such as raising boys' attainment, the accuracy of assessing levels of performance at key stage 3, planning for the development of skills and improving self-evaluation, are not addressed effectively.

- Mae diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau dysgu yn golygu nad yw arfer dda yn cael ei rhannu digon, ac nid eir i'r afael yn effeithiol â heriau, fel codi cyrhaeddiad bechgyn, cywirdeb asesu lefelau perfformiad yng nghyfnod allweddol 3, cynllunio ar gyfer datblygu medrau a gwella hunanarfarnu.

# Recommendations
# Argymhellion

**Schools should:**

- develop strategies to raise the attainment of boys at key stage 4;
- improve standards at key stage 4 for pupils who are not entered for a qualification and consider giving all pupils the opportunity to gain an appropriate qualification;
- improve the accuracy of teacher assessment of pupils' levels at key stage 3;
- ensure that tasks are challenging enough to enable more able pupils to reach higher levels at key stage 3;

**Dylai ysgolion:**

- ddatblygu strategaethau i godi cyrhaeddiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4;
- gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer cymhwyster, ac ystyried rhoi'r cyfle i bob disgybl ennill cymhwyster priodol;
- gwella cywirdeb asesiadau athrawon o lefelau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3;
- sicrhau bod tasgau yn ddigon heriol i alluogi disgyblion mwy galluog i gyrraedd lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3;

# Recommendations
# Argymhellion

**Schools should:**

- ensure that the curriculum, staffing and timetabling arrangements enable all pupils to make good progress through key stages 3 and 4; and
- strengthen self-evaluation and use data in religious education departments to identify where and what to improve.

**Dylai ysgolion:**

- sicrhau bod y cwricwlwm, staffio a threfniadau amserlennu yn galluogi pob disgybl i wneud cynnydd da trwy gyfnodau allweddol 3 a 4; a
- chryfhau hunanarfarnu a'r defnydd o ddata mewn adrannau addysg grefyddol er mwy nodi ble i wella a beth i'w wella.

# Recommendations
# Argymhellion

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

**The Welsh Government should:**

- collect, analyse and publish attainment data for religious education and religious studies in the same way as for non-core subjects; and
- work with local authorities and SACREs to improve the opportunities for professional development and support learning networks for teachers of religious education.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data cyrhaeddiad ar gyfer addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol yn yr un ffordd ag ar gyfer pynciau

di-graidd; a

- gweithio gydag awdurdodau lleol a CYSAG i wella'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chefnogi rhwydweithiau dysgu ar gyfer athrawon addysg grefyddol.

# Best practice
# Arfer orau

**The report includes the following examples of best practice:**

- Using collaborative group work effectively to strengthen learning;
- Support for non-specialist teachers; and
- Collaborative approach to religious studies at key stage 4

**Mae'r adroddiad yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol o arfer orau:**

- Defnyddio gwaith grŵp cydweithredol yn effeithiol i gryfhau'r dysgu;
- Cymorth ar gyfer athrawon anarbenigol; ac
- Ymagwedd gydweithredol at astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4

# 6 questions for providers
# 6 cwestiwn i ddarparwyr

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

- What strategies are we using to raise boys' standards at key stage 4?
- How can we improve standards for pupils at key stage 4 who are not entered for a qualification? Should we make greater use of religious studies qualifications with all pupils at key stage 4?
- How accurate is our assessment of pupils' levels at key stage 3?
- Do we challenge our more able pupils enough at key stage 3?

- Pa strategaethau ydyn ni'n eu defnyddio i godi safonau bechgyn yng nghyfnod allweddol 4?
- Sut gallwn ni wella safonau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer cymhwyster? A ddylem ni wneud mwy o ddefnydd o gymwysterau astudiaethau crefyddol gyda phob disgybl yng nghyfnod allweddol 4?
- Pa mor gywir yw ein hasesiadau o lefelau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3?
- A ydyn ni'n herio ein disgyblion mwy galluog yn ddigonol yng nghyfnod allweddol 3?

# 6 questions for providers
# 6 cwestiwn i ddarparwyr

- Do our curriculum, staffing and timetabling arrangements enable all pupils to make good progress through key stages 3 and 4?
- How can we strengthen our self-evaluation and use data more effectively to support this?

- A yw ein cwricwlwm, staffio a threfniadau amserlennu yn galluogi pob disgybl i wneud cynnydd da trwy gyfnodau allweddol 3 a 4?
- Sut gallwn ni gryfhau ein hunanarfarnu a defnyddio data yn fwy effeithiol i gefnogi hyn?

Web-link to full report:

English

Gwe-ddolen at yr adroddiad llawn:

Cymraeg

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

# Cwestiynau...

# Questions…

## Sut gall aelodau CYSAG gefnogi'r drefn o fonitro safonau addoli ar y cyd ac Addysg Grefyddol?

Daeth cangen ymgynghorol CYNNAL i ben ar 31ain o Fawrth. Er bod Adran Addysg Awdurdod Gwynedd yn awyddus i sicrhau cefnogaeth bynciol neu broffesiynol i CYSAG Gwynedd ac yn ystyried comisynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i ymgymryd â'r cyfrfoldeb hwn, nid oes cytundeb ffufiol yn ei le. Mynychodd cyn-ymgynghorydd Dyniaethau, cyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Mehefin 2013 er mwyn cyflwyno eitem ar ddadansoddi hunan arfarniadau ysgolion o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.

Gan fod rhai aelodau newydd yn bresennol, manteisiodd ar y cyfle i ganfod gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau CYSAG Gwynedd o'r maes trwy ddosbarthu holiadur. Roedd x aelod yn bresennol yn y cyfarfod ac ymatebodd 10 aelod i'r holiadur.

| | ✘ | ✓ |
|---|---|---|
| **Rwy'n deall gofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion**<br>*I understand the statutory requirements for collective worship in schools.* | 20% | 80% |
| **Rwy'n deall gofynion statudol y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.**<br>*I understand the statutory requirements of the Agreed Syllabus for Religious Education* | 40% | 60% |

**Yn dilyn sesiynau hyfforddi penodol, a fyddech yn hapus i:**
Follwing specific training sessions, would you be happy to:

| | **Byddwn**<br>*Yes* | **Na fyddwn**<br>*No* |
|---|---|---|
| Ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor?<br>*Attend a collective worship session/sessions in a sample of schools each term?* | 50% | 50% |
| Ddarllen a pharatoi dadansoddiad sampl o arfarniadau ysgol<br>*Read and prepare an analysis of a sample of school self evaluation reports* | 50% | 50% |
| Ymweld ag ysgol er mwyn trafod hunan arfarniad ar yr ysgol ar addysg grefyddol gyda'r cydlynydd addysg grefyddol neu bennaeth adran.<br>*Visit a school in order to discuss the school's self evaluation of religious education with the RE co-ordinator or head of department.* | 30% | 70% |

Mae llawer o aelodau CYSAG Gwynedd yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudoll addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae hanner o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod.

Mae'r mywafrif o aelodau CYSAG Gwynedd yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol y Maes Llafur Cytûn. Mae hanner o'r aelodau yn barod i ddarllen a pharato dadansoddiad o sampl o hunan arfarniadau ysgol a derbyniwyd enwau dau ohonynt. Lleiafrif sy'n barod i ymweld ag ysgol er mwyn trafod hunan arfarniad yr ysgol gyda'r cydlynydd addysg grefyddol neu bennaeth adran a derbyniwyd enwau dau ohonynt.

**Argymhellion posib ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod nesaf (Hydref 2013)**

Cynnal hyfforddiant ar y gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd
Cynnal hyfforddiant ar y gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol.
Cynnal un cyfarfod bob blwyddyn mewn ysgol uwchradd er mwyn mynychu addoli ar y cyd a threulio amser gydag athrawon addysg grefyddol a disgyblion CA3, CA4 a CA5.
Cynnal un cyfarfod bob blwyddyn mewn ysgol gynradd er mwyn mynychu addoli ar y cyd a thrulio amser gyda'r cydlynydd addysg grefyddol a disgyblion CS a CA2.

Trefnu bod pob aelod o CYSAG (par o aelodau?) yn ymweld ag  x o ysgolion pob tymor.
Gwahodd athro/athrwes cynradd ac uwchradd i roi cyflwyniad 10 munud pob cyfarfod.

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Gwynedd (Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon), 19 Mehefin 2013 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Gwynedd (Dafydd Orwig Chamber, Caernarfon)*, 19 June 2013 (10.30am – 3pm)**

draft

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Bethan James<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans<br>Carys Pritchard<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Aled Jones<br>Mary Parry<br><br>**Ceredigion**<br>Cyng. Lyndon Lloyd<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord<br>N.C. Richter | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord<br>Martin Evans-Jones<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James<br>Deian Evans<br>WMMeredeth<br>Ken Robinson<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Cllr Ernie Galsworth<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br><br>**Powys**<br>John Mitson | **Rhondda Cynon Taf**<br>Carys Pritchard<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br><br>**Torfaen**<br>Helen Bevan<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Carys Pritchard<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones<br>Tania ap Siôn<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Ben Wigley REMW |

| Cofnodion | Minutes |
|---|---|
| 1. **Cyflwyniad a chroeso / Introduction and welcome.** Croesawodd y Cadeirydd, Edward Evans, yr aelodau i'r cyfarfod, a chroesawodd hefyd Mr Selwyn Griffiths, cyn-Gadeirydd Cyngor Gwynedd a Chadeirydd cyfredol CYSAG Gwynedd.<br><br>Diolchodd Mr Selwyn Griffiths i'r Cadeirydd, a chroesawodd yr aelodau i Wynedd, a ddisgrifiwyd ganddo fel un o ardaloedd harddaf Cymru. Pwysleisiodd Mr Griffiths ymrwymiad Cyngor Gwynedd i gynnal ei holl fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabu hefyd y diwylliannau gwahanol niferus a fodolai o gwmpas yr ardal. Yn gyn-athro a bellach yn gynghorydd, diolchodd Mr Griffiths i Bethan James am ei gwaith caled a'i hymroddiad i GYSAG Gwynedd fel un o ymgynghorwyr yr Awdurdod Lleol, a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd fel Arweinydd Systemau GwE.<br>Anerchwyd yr aelodau gan Gyfarwyddwr Addysg Gwynedd, Mr Dewi R Jones, a ategodd groeso'r Cynghorydd Griffiths. Siaradodd Mr Jones am y newid mewn agweddau tuag at Addysg Grefyddol, gan gyfeirio at y cyfnod pan gâi AG ei disgrifio'n aml fel un o'r 'pynciau Sinderela' oedd yn gorfod ymladd am eu lle ymhlith meysydd Mathemateg, gwyddoniaeth ac ieithoedd, er enghraifft. Llongyfarchodd athrawon, CYSAG'au a ChCYSAGauC am eu gwaith caled, eu gweledigaeth a'u hymrwymiad i'r pwnc, gan ychwanegu bod y disgrifiad hwn bellach wedi diflannu oherwydd eu gallu i ysbrydoli plant, a'u cefnogaeth i AG.<br><br>Cyfeiriodd Mr Jones at ddau gyhoeddiad yn ei anerchiad. Yr oedd y cyntaf gan y Dr Barry Morgan o Brifysgol Bangor (2013), "Thinking about how we will develop RE in the future", a'r ail oedd adroddiad Robert Hill | 1. **Cyflwyniad a chroeso / Introduction and welcome.** Chair Edward Evans welcomed members to the meeting and welcomed Mr Selwyn Griffiths, past chair of Gwynedd County Council and current Chair of Gwynedd SACRE.<br><br>Mr Selwyn Griffiths thanked the Chair and welcomed members to Gwynedd, which he described as one of the most beautiful area of Wales. Mr Griffiths emphasised the commitment of Gwynedd County Council to conducting all business through the medium of Welsh. He also acknowledged the many different cultures around the area. A former teacher and now a councillor, Mr Griffiths thanked Bethan James for her hard work and commitment to Gwynedd SACRE as a Local Authority advisor and wished her well in her new role as a Systems Leader for GwE. Director of Education for Gwynedd, Mr Dewi R Jones addressed members, reiterating the welcome of Councillor Griffiths. Mr Jones spoke of the change in attitudes to Religious Education referring back to when RE was often described as one of the 'Cinderella subjects', which had to fight for her place within the fields of Maths, science and languages, for example. He congratulated teachers, SACREs and WASACRE for their hard work, vision and commitment to the subject, adding that due to their enthusiasm, their ability to inspire children and their support for RE, this description has now disappeared.<br><br>Mr Jones referred to two publications in his address. The first was by Dr Barry Morgan of Bangor University (2013) "Thinking about how we will develop RE in the future" and the second was the Robert Hill report |

draft

| | |
|---|---|
| a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (18 Mehefin 2013). Yn gryno, dywedodd Mr Jones fod AG yn llawer mwy na gwybodaeth yn unig, a phwysleisiodd bwysigrwydd Addysg Grefyddol a'r cyfoeth o brofiadau y gallai disgyblion eu cael yn yr ysgol, naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu yn yr ysgol gyfan — er enghraifft, cael amser i adfyfyrio a meddwl ac i ystyried safbwyntiau pobl eraill. Dywedodd Mr Jones ein bod yn caniatáu i ddisgyblion wneud hyn drwy Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Aeth yn ei flaen i ddweud bod athrawon AG yn greadigol yn eu cynllunio, ac y dylent barhau felly, a bod y modd yr oeddynt yn ysbrydoli plant yn rhan greiddiol o'r cynllunio hwnnw. Gan ddyfynnu o adroddiad Hill, meddai Mr Jones: “Y tu cefn i'r holl newidiadau, y pethau pwysicaf yw'r dysgu a'r profiadau, a safon yr addysgu. Rwy'n meddwl bod yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn para am byth, a bod yn rhaid ei wneud yn iawn os yw am gael unrhyw ddylanwad ar safonau.”<br><br>Clôdd Mr Jones ei anerchiad drwy ddiolch i GCYSAGauC, ac anogodd barhad ymrwymiad y Gymdeithas i Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yng Nghymru. Wedi hynny, cafwyd cyflwyniad gan rai o ddisgyblion blwyddyn 8 Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Rhannodd y disgyblion yr hyn y buont yn ei wneud mewn gwersi AG yn ystod y tymor hwnnw. Cychwynnwyd drwy egluro'r pwnc, sef ‘Cwestiynau sylfaenol ynghylch Islam’. I ddechrau yr oedd y disgyblion wedi gweithio ar amrywiaeth o dasgau ynglŷn â Phum Piler Islam, gan gynnwys pererindod Fwslimaidd a Ramadan. Yr oeddynt wedi gweithio mewn grwpiau yn y dosbarth i greu gwahanol ddulliau o ddysgu am Ramadan, a rhoddasant arddangosiad o rai o'r rhain, gan gynnwys gêm cydgysylltu geiriau a rap yr oeddynt | published by Welsh Government (18 June 2013). In summary, Mr Jones said that RE is much more than just information and emphasised the importance of Religious Education and the wealth of experiences pupils can have in a school, either in the classroom or the whole school, for example, pupils having time to reflect and think and consider other people’s viewpoints. Mr Jones said that through Religious Education and collective worship we are allowing pupils to do this. He went on to say that teachers of RE are, and should continue to be, creative in their planning, and the way that they inspire children is a core part of that planning. Quoting from the Hill report, Mr Jones said, “behind all the changes the most important thing is the learning and experiences and the standard of the teaching. I think what happens in the classroom lasts forever and has to be done properly to have any influence on standards.”<br><br>Mr Jones ended his address by thanking WASACRE and urged the continuation of the Association’s commitment to Religious Education and Collective Worship in Wales. Members were then given a presentation by year 8 pupils from Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. The pupils shared what they had been doing in RE that term. They began by explaining the topic, which was ‘Fundamental questions about Islam’. Initially pupils had worked on a variety of tasks about the Five Pillars of Islam, including Muslim pilgrimage and Ramadan. They had worked in groups in class to create different ways of learning about Ramadan and gave a demonstration of some of these, which included a word association game and a rap that they performed. Pupils also linked their unit of work to the skills they had |

draft

| | |
|---|---|
| wedi ei berfformio. Yn ogystal, cysylltodd y disgyblion eu huned gwaith â'r sgiliau yr oeddynt wedi eu datblygu wrth ddysgu.<br>Diolchodd y Cadeirydd, Edward Evans, i'r disgyblion, gan gysylltu eu gwaith â'r sefyllfa gyfredol yng Ngwledydd Prydain. | developed during their learning.<br>Chair Edward Evans thanked the pupils and linked their work with the current situation in Britain. |
| 2. **Adfyfyrio tawel / Quiet reflection.**<br>Rhannodd y Cadeirydd ddetholiad allan o'i hoff lyfr, 'The Wind in the Willows', a gofynnodd i'r aelodau ystyried eu hymatebion eu hunain i'r myfyrdod. | 2. **Adfyfyrio tawel / Quiet reflection.**<br>The Chair shared an excerpt from his favourite book 'Wind in the Willows' and asked members to consider their own responses to the reflection. |
| 3. **Ymddiheuriadau / Apologies:**<br>Meinir Loader, Helen Gibbon, Leslie Francis, Brian Rogers, Dafydd Treharne, Rameez Delpak, Gavin Craigen, Rheinallt Thomas, Vicky Thomas, y Cynghorydd Christine Abbas, Sue Cave, Huw George a Michael Gray. | 3. **Ymddiheuriadau / Apologies:**<br>Meinir Loader and Helen Gibbon. Leslie Francis, Brian Rogers and Dafydd Treharne and Rameez Delpack, Gavin Craigen, Rheinallt Thomas, Vicky Thomas, Cllr Arwel Roberts, Christine Abbas, Sue Cave, Huw Edwards, Huw George, Jenny Garrard, Michael Gray. |
| 4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd, 22 Mawrth 2013 / Minutes of meeting held in Newport, 22 March 2013.** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. | 4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd, 22 Mawrth 2013 / Minutes of meeting held in Newport, 22 March 2013** The minutes were accepted as a true record of the meeting. |
| 5. **Cyflwyniad PYCAG: Phil Lord, 'Y Marc Safon AG' / NAPfRE presentation:** Phil Lord, 'REQM' | 5. **Cyflwyniad NAPfRE:**<br>**NAPfRE presentation:** Phil Lord REQM |
| Rhoddodd Phil Lord y newyddion diweddaraf i'r aelodau am ddatblygiad y Marc Safon AG ar gyfer cyd-destun penodol Gymreig. Gan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, crynhodd themâu'r Marc Safon AG. Pwysleisiodd fod Cyngor AG Cymru a Lloegr, Ymddiriedolaeth Culham a Sant Gabriel, a'r Gymdeithas Genedlaethol, i gyd yn gefnogol i ddatblygiad y Marc Safon. Teimlai PL ei bod yn bwysig bod y Marc Safon AG ar gael hefyd i ysgolion yng | Phil Lord updated members on the development of the RE Quality Mark for a specifically Welsh context. Using a PowerPoint presentation, he summarised the themes of the RE Quality Mark. He emphasised that the RE Council for England and Wales, the Culham and St Gabriel's Trust, and the National Society are all supportive in the development of the Quality Mark. PL felt that it was important that the RE Quality Mark should also be available to |

draft

| | |
|---|---|
| Nghymru, ac yr oedd wedi bod yn gweithio gyda Mary Myatt i'w osod mewn cyd-destun a diwyg Cymreig. Yr oedd cynllun peilot wedi ei gynnal, gyda phedair ysgol yn cymryd rhan. Yr oedd y Marc Safon AG wedi ei sefydlu er mwyn: 1. Codi proffil AG mewn ysgolion. 2. Dathlu ymrwymiad i ragoriaeth mewn AG. 3. Hwyluso lledaeniad ar gyfer mesur, cynllunio a datblygu ansawdd addysgu a dysgu ym maes AG. 4. Symbylu ysgolion i gynyddu amrywiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu mewn AG er mwyn gwella safonau. 5. Darparu strwythur a fframwaith a fyddai'n galluogi esgobaethau a ChYSAG'au i fapio AG o ansawdd uchel.<br><br>Crynhodd PL y prif negeseuon mewn perthynas â'r Marc Safon AG:<br>• Yr oedd yn fan cychwyn da ar gyfer ysgolion ac adrannau AG, a allai ei ddefnyddio fel arf datblygiad proffesiynol ar eu cyfer hwy eu hunain neu ar gyfer adrannau eraill yn yr ysgol.<br>• Yr oedd yn gymorth i ganfod ysgolion da a rhannu arfer da ar draws ysgolion.<br><br>Yr oedd PL wedi gweithio gyda Tania ap Siôn a Phwyllgor Gwaith CCYSAGauC ar ddiwygio'r meini prawf Seisnig ar gyfer y Marc Safon AG mewn cyd-destun Cymreig. Yr oedd athrawon o'r ysgolion a oedd wedi peilotio'r Marc Safon AG wedi darparu adborth manwl a chadarnhaol hefyd i aelodau mewn perthynas â'u profiadau.<br><br>Gofynnodd PL i aelodau CCYSAGauC a fuasent yn ystyried darparu cymorth ariannol gan y Gymdeithas ar gyfer cyfieithu dogfennau (oddeutu £500.00) a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Marc Safon drwy'r 22 CYSAG. Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar bwysigrwydd cyfieithu'r dogfennau, a | schools in Wales and has been working with Mary Myatt to place it within a Welsh context and format. There has been a pilot in which four schools took part. REQM has been set up to: 1. Raise the profile of RE in schools. 2. Celebrate a commitment to excellence in RE. 3. Enable dissemination for measuring, planning and developing the quality of RE teaching and learning. 4. Encourage schools to increase the range and quality of teaching and learning in RE to improve standards. 5. Provide a structure and framework for dioceses and SACREs to map high quality RE.<br><br>PL summarised the main messages in relation to the REQM:<br>• It is a good starting point for schools and RE departments, which can use it a tool for professional development for themselves or other departments in school.<br>• It helps to identify good schools and the sharing of good practice across schools.<br><br>PL had worked with Tania ap Sion and the WASACRE Executive in amending the English criteria for the REQM for a Welsh context.Teachers from the schools that had piloted the REQM also provided members with detailed and positive feedback in relation to their experiences.<br><br>PL asked WASACRE members if they would consider the Association funding the translation of documents (approx. £500.00) and publicising the quality mark through the 22 SACREs. The Chair commented on the importance of the translation of the documents and Treasurer John Mitson |

draft

| | |
|---|---|
| chadarnhaodd y Trysorydd, John Mitson, fod CCYSAGauC mewn sefyllfa i ariannu hyn. Cytunodd yr aelodau y dylid darparu cyllid ar gyfer cyfieithu. Dywedodd PL y byddai'n gwneud cyflwyniad i gynhadledd AREAIC ar 1 Gorffennaf 2013, ac y byddai Mary Myatt yn darparu hyfforddiant ar 7 Hydref 2013 ar gyfer Aseswyr yng Nghymru. Yr oedd yn bwysig cael aseswyr hyfforddedig yng Nghymru a oedd yn gyfarwydd â'r cyd-destun Cymreig, a hefyd cael aseswyr cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cafodd y Cadeirydd gadarnhad gan PL fod y Marc Safon wedi ei beilotio yng Ngogledd Cymru, ac mai cost gwneud cais am asesiad y Marc Safon AG fyddai £450.00 yr ysgol. Cadarnhaodd PL yn ogystal fod y dyfarniad yn parhau am 3 blynedd, ac y byddai ar ysgolion angen ailymgeisio wedi'r cyfnod hwnnw; y gobaith oedd y byddent yn ceisio am ddyfarniad uwch.<br><br>Diolchodd Carys Pritchard (Arweinydd Systemau Consortiwm Canol De Cymru) i PL a'r ysgolion am rannu eu profiadau. Yr oedd yn amlwg bod yr ysgolion wedi cael budd o hyn, ac nas gwelid yn faich ychwanegol. Dywedodd CP ei bod yn bwysig pwysleisio y byddai ysgolion yn gwerthfawrogi cymorth gyda hunanarfarnu, ac y croesewid dogfennau cyfrwng Cymraeg. Tynnodd CP sylw'n ogystal at yr angen i'r Marc Safon Cymreig gael ei labelu'n glir ar y wefan ar gyfer ysgolion Cymreig. Holodd Gill Vaisey ynghylch ysgolion na allai fforddio talu am y broses, ac mewn ymateb cadarnhaodd PL y byddai'r holl ddogfennau ar gael am ddim ar wefan y Marc Safon AG, er mwyn i ysgolion eu hasesu eu hunain heb orfod mynd drwy'r broses yn ffurfiol gydag asesydd. Fodd bynnag, os oeddynt yn dymuno i'r marc safon gael ei ddyfarnu | confirmed that WASACRE was in a position to fund this. Members agreed that funding for translation should be provided. PL said that he would be presenting to the AREAC conference on 1 July 2013 and Mary Myatt will be delivering training on 7 October 2013 for Assessors in Wales. It is important to have trained assessors in Wales who are familiar with the Welsh context and also to have Welsh-medium assessors.<br><br>The Chair confirmed with PL that it had been piloted in North Wales and the cost for applying for the REQM assessment would be £450.00 per school. PL also confirmed that the award lasts for 3 years and schools would need to re-apply after that period, hopefully for a higher award.<br><br>Carys Pritchard (Systems Leader for South Central Consortia) thanked PL and the schools for sharing their experiences. It was clear that the schools had benefited from this and that it was not perceived as an extra burden. She said that it was important to emphasise that schools would appreciate the benefit of help with Self Evaluation and Welsh-medium documents would be welcomed. CP also pointed out the need for the Welsh quality mark to be clearly labelled on the website for Welsh schools. Gill Vaisey asked about schools who could not afford to pay for the process, and in response PL confirmed that all the documents would be free on the REQM website for schools to assess themselves without having to pay to go through the process formally with an assessor. However, if they did want to be awarded the quality mark, payment would be |

draft

| | |
|---|---|
| iddynt, byddai angen tâl. | needed. |
| Awgrymodd aelod o Geredigion y gallai CYSAG'au lleol dynnu sylw'r ysgolion at y Marc Safon AG a'i hyrwyddo. Y ddolen a oedd i'w rhannu ag ysgolion unigol oedd www.reqm.org. Awgrymodd Bethan James y gallai hwn fod yn fformat da i GYSAG'au ei ddefnyddio eu hunain wrth fonitro AG, ac efallai y dylai CYSAG'au drafod hyn yn eu cyfarfodydd lleol. Diolchodd y Cadeirydd i Phil Lord a'r athrawon a fu'n gysylltiedig â'r Peilot am eu cyflwyniad a'u gwaith caled. | A Ceredigion member suggested that local SACREs could draw the schools' attention to the REQM and promote it. The link to be shared with individual schools is www.reqm.org. Bethan James suggested that this could be a good format for SACREs to use themselves when monitoring RE and perhaps SACREs should be discussing this at their local meetings. The Chair thanked Phil Lord and the teachers involved in the Pilot for their presentation and hard work. |
| 6. **Gohebiaeth /Correspondence.**<br>Darllenodd Libby Jones ymateb Leighton Andrews ynglŷn â'r Adolygiad cyfredol o'r Cwricwlwm yng Nghymru. Byddai'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Adolygiad yn cychwyn rywbryd ym Medi 2013, a chytunwyd y byddai Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn ymateb i'r ymgynghoriad ar ran CCYSAGauC oherwydd y cyfyngiadau ar amser a oedd yn deillio o symud dyddiad y prif gyfarfod nesaf i'r un diwrnod â'r gynhadledd. | 6. **Gohebiaeth /Correspondence.**<br>Libby Jones read out the response from Leighton Andrews regarding the current Curriculum Review in Wales. The consultation for the Review will be out some time in September 2013 and it was agreed that the WASACRE Executive Committee will respond to the consultation on behalf of WASACRE due to the time constraints of the next main meeting being moved to the same day as the conference. |
| 7. **Diweddariadau/Updates:** | 7. **Diweddariadau/Up-dates:** |
| **Adolygiad Thematig Estyn / Estyn Thematic Review.**<br>Darparodd Mary Parry'r wybodaeth ddiweddaraf. Cawsai'r adroddiad ei gyhoeddi'r diwrnod blaenorol (18.6.13), ac yr oedd ar gael ar wefan Estyn. Yr oedd tri Arolygydd wedi edrych ar Addysg Grefyddol statudol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 mewn 22 o ysgolion ar draws Cymru. Yr oedd hyn wedi cynnwys treulio un diwrnod ym mhob ysgol. Arsylwyd un wers yn CA3 (blwyddyn 9) ac un wers yn CA4 (blwyddyn 10). Edrychodd yr Arolygwyr ar ddogfennaeth, cynlluniau gwaith, a | **Adolygiad Thematig Estyn/ Estyn Thematic Review.**<br>An update was provided by Mary Parry. The report was published on the previous day (18.6.13) and is available on the Estyn website. Three inspectors looked at statutory Religious Education in key stages 3 and 4 in 22 schools across Wales. This consisted of one day in each school. One lesson in KS3 (year 9) and one lesson in KS4 (year 10) were observed. Inspectors looked at documentation, schemes of work, planning, and talked to Heads of Department and 10 pupils from KS3 and 10 pupils from KS4 |

draft

| | |
|---|---|
| chynllunio, a siarad â Phenaethiaid Adran, 10 disgybl o CA3 a 10 disgybl o CA4, gyda holiadur. Un o'r prif benawdau yn yr adroddiad hwn oedd bod AG yn fwy poblogaidd nag unrhyw bwnc arall nad oedd yn bwnc craidd. Yr oedd hyn yn galonogol, and yn amlygu agwedd gadarnhaol y disgyblion at Addysg Grefyddol. Un o'r prif negeseuon oedd bod disgyblion yn gweld gwerth y pwnc yn eu bywydau, ac yn teimlo y byddai AG yn eu helpu. Byddai Mark Campion yn siarad yn fanylach am yr adroddiad yn y gynhadledd.<br><br>Yr oedd chwech o argymhellion ar gyfer ysgolion a dau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ar gyfer ysgolion, yr oeddynt yn ymwneud â:<br>• Chyflawniad bechgyn<br>• Cynnig cymhwyster drwy arholiad ar gyfer AG graidd er mwyn codi safonau<br>• Asesu athrawon yn CA3<br>• Tasgau mwy heriol ar gyfer disgyblion, er mwyn cyrraedd lefelau uwch<br>• Trefniadau cwricwlwm, staffio ac amserlennu i alluogi disgyblion i symud ymlaen o CA3 i CA4<br>• Cryfhau Hunanarfarnu<br><br>Ar gyfer Llywodraeth Cymru, yr oeddynt yn ymwneud â:<br>• Cyfleoedd ar gyfer DPP<br>• Cyhoeddi data ar gyfer AG<br><br>Rhai pwyntiau a godwyd gan aelodau oedd: A oedd gwella cyflawniad bechgyn yn broblem mewn AG yn unig? Yr oedd cysylltiadau cryf rhwng AG a llythrennedd, ac felly fe allai fod yn bwnc a oedd yn fwy poblogaidd gyda merched. Gellid gwneud mwy i wella safonau ymysg bechgyn. Efallai fod cynnwys y maes llafur yn allweddol i gynyddu diddordeb a chyflawniad bechgyn mewn AG. | with a questionnaire. One of the headlines of this report is that RE is a more popular subject than any subject that is not a core subject. This is encouraging and highlights the positive attitude of the pupils towards Religious Education. One of the main messages was that pupils saw the value of the subject in their lives and that they felt that RE would help them. Mark Campion will be speaking about the report in more detail at the conference.<br><br>There were six recommendations for schools and two for the Welsh Government. For schools, these related to:<br>• Boys' achievement<br>• Offering an examination qualification for core RE to raise standards<br>• Teacher assessment at KS3<br>• More challenging tasks for pupils to achieve higher levels<br>• Curriculum, staffing and timetabling arrangements to enable pupils to make progress from KS3 to KS4<br>• Strengthening Self Evaluation<br><br>For Welsh Government, these related to:<br>• Opportunities for CPD<br>• Publishing data for RE<br><br>Some points raised by members were: Is raising boys' achievement an RE only issue? There are strong links between RE and Literacy and therefore it may be a subject more popular with girls. More could be done to improve standards with boys. The syllabus content may be key to raising boys' interest and achievement in RE. |

draft

| | |
|---|---|
| Bu'n galonogol gweld yr adroddiad yn y ‘Western Mail’ ynglŷn ag Adolygiad Thematig Estyn. Yr oedd statws AG wedi codi, ar y cyfan. O ran ymateb yn briodol i agweddau penodol ar Adolygiad Estyn, yr oedd angen ymchwil er mwyn deall rhai o'r canlyniadau'n iawn.<br><br>Cytunwyd y byddai CCYSAGauC yn cylchredeg yr adroddiad ar Adolygiad Thematig Estyn i GYSAG'au, fel bod copi ohono ganddynt, ac y gallai gylchredeg yr adroddiad i ysgolion hefyd. Byddai copi'n cael ei osod ar wefan CCYSAGauC yn ogystal.<br><br>**Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o adroddiadau blynyddol CYSAG / Welsh Government review of SACRE annual reports.**<br>Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Tania ap Siôn. Yr oedd y broses ynglŷn ag Adolygiad Llywodraeth Cymru o adroddiadau CYSAG'au wedi ei thrafod mewn sawl cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith dros y blynyddoedd diweddar. Yr oedd y ddogfen adolygu gyfredol yn cwmpasu adroddiadau blynyddol 3 blynedd. Yr oedd yn ofynnol fod CYSAG'au yn cyflwyno'u hadroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru; a'r dogfennau cyflwynedig hyn oedd yn sail i gynnwys yr adolygiad. Yr oedd y ddogfen adolygu wedi ei rhannu, ar ffurf ddrafft, gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r ymgynghorwyr, a oedd wedi darparu adborth defnyddiol i Lywodraeth Cymru. Nid oeddem yn gwybod eto pa bryd y byddai'n cael ei chyhoeddi'n swyddogol.<br><br>Yr oedd y ddogfen adolygu ddrafft yn adlewyrchu golwg gadarnhaol a defnyddiol iawn ar GYSAG'au yng Nghymru, a'u meysydd gwaith. Yr oedd yn amlygu | It was encouraging to see the report in the Western Mail relating to the Estyn Thematic Review. The status of RE has increased on the whole. In terms of responding appropriately to particular aspects of the Estyn Review, research is needed to understand properly some of the results.<br><br>It was agreed that WASACRE would circulate the Estyn Thematic Review report to SACREs so that they have a copy and can also circulate the report to schools. A copy would also be placed on the WASACRE website.<br><br>**Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o adroddiadau blynyddol CYSAG/Welsh Government review of SACRE annual report**.<br>An update was provided by Tania ap Sion. The process relating to the Welsh Government Review of SACRE reports has been discussed in many Executive meetings over the past few years. The current review document covers 3 three years of annual reports. It is a requirement that SACREs submit their annual reports to Welsh Government and it is these submitted documents that inform the content of the review. The review document has been shared in draft format with the Executive and advisors, who have provided useful feedback to Welsh Government. We do not know as yet when it will be published officially.<br><br>The draft review document reflects a very positive and helpful view of SACREs in Wales and their areas of work. It highlights an awareness of the significant contribution |

draft

| | |
|---|---|
| ymwybyddiaeth o gyfraniad sylweddol CYSAG'au at Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Cafwyd cydnabyddiaeth o'r sefyllfa newidiol yng Nghymru a sut y byddai'n effeithio ar GYSAG'au. Y prif argymhellion i GYSAG'au oedd y dylent barhau i wneud yr hyn yr oeddent yn ei wneud er mwyn codi safonau a chynorthwyo ysgolion, monitro ysgolion, a darparu cyngor ynglŷn â dulliau dysgu a.y.b. ar gyfer eu Hawdurdodau Lleol, a sicrhau bod proses werthuso wedi ei sefydlu. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn trafod pwysigrwydd sicrhau bod Addoli ar y Cyd yn digwydd yn unol â gofynion y gyfraith. Yr oedd pwyslais ar gymorth gan GYSAG'au i Awdurdodau Lleol gyda'r broses Hunanwerthuso. Yr oedd nifer o gysylltiadau rhwng yr adolygiad hwn ac Adolygiad Thematig Estyn — er enghraifft, strategaethau mewn perthynas â chyflawniad bechgyn, y defnydd o ganlyniadau arholiadau, a'r defnydd pwrpasol o ddata. Yn olaf, dylai CYSAG'au adrodd ynghylch effeithiolrwydd y cynghorion a'r cymorth a roddwyd mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd. Cytunwyd bod hon yn ddogfen bwysig, er gwaethaf oed yr wybodaeth a oedd ynddi. Yr oedd llawer iawn yn yr adroddiad y buasai'n ddefnyddiol i GYSAG'au ei drafod. Cyn gynted ag y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi, byddai CCYSAGauC yn trefnu ei bod ar gael i GYSAG'au er mwyn iddynt allu ymateb iddi.<br><br>**Cynhadledd CCYSAGauC / WASACRE Conference**<br>Nodwyd y byddai Cynhadledd nesaf CCYSAGauC yn cael ei chynnal ar 10 Hydref 2013.<br><br>8. **Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Mai 2013 / Report from the Executive Committee** | of SACREs to Religious Education and Collective Worship. There has been recognition of the changing situation in Wales and how this will affect SACREs. The main recommendations to SACREs are to continue to do what they are doing in order to raise standards and to support schools, monitor schools and provide advice about teaching methods, etc to their Local Authorities, and to have in place an evaluation process. The report also talks about the importance of ensuring that Collective Worship takes place according to legal requirements. There is emphasis on SACREs supporting Local Authorities with the Self Evaluation process. There are a number of connections between this review and the Estyn Thematic Review, for example, boys' achievement strategies and the use of examination results and the purposeful use of data. Finally, SACREs should report on the effectiveness of the advice and support given in relation to Collective Worship. It was agreed that this is an important document despite the age of the information within it. There is a great deal in the report that SACREs can usefully discuss. As soon as the document is published, WASACRE will make it available to SACREs so that they can respond to it.<br><br>**CYSAGau Gynhadledd/WASACRE Conference**<br>The forthcoming WASACRE Conference was noted, taking place on 10 October 2013.<br><br>8. **Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Mai 2013 / Report from the Executive Committee** |

draft

| | |
|---|---|
| **held on 16 May 2013**<br><br>Yr oedd yr aelodau wedi derbyn y crynodeb o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith gyda'u papurau.<br><br>9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>Nid oedd unrhyw faterion eraill.<br>10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting. Bellach bydd cyfarfod nesaf CCYSAGauC yn cael ei gynnal ar ddiwrnod Cynhadledd CCYSAGauC, sef dydd Iau, 10 Hydref 2013 (bydd y Gynhadledd yn dod i ben am 3.30pm a bydd cyfarfod byr o GCYSAGauC yn cael ei gynnal rhwng 3.45 a 4.45pm). Bydd y papurau ar gyfer y cyfarfod yn cael eu cylchredeg i aelodau gan eu CYSAG lleol. | **held on 16 May 2013**<br><br>Members received the summary of the Executive meeting with their papers.<br><br>9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>There was no other business.<br>10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date for next meeting. The next WASACRE meeting will now take place on the day of the WASACRE Conference on Thursday, 10 October 2013 (The Conference will finish at 3.30pm and a short WASACRE meeting will take place from 3.45-4.45pm). Papers for the meeting will be circulated to members by their local SACRE. |

draft

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol CCYSAGauC, 19 Mehefin 2013**

1. **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno ar 26 Mehefin 2012**

Minutes of the Annual General Meeting held in Llandudno Junction, 26 June 2012.
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

2. **Materion yn Codi / Matters Arising.**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. **Adroddiad CCYSAGauC am 2012–2013 / WASACRE Report for 2012–2013.**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad blynyddol i'r aelodau. Cadarnhawyd mai'r cyfnod yr oedd yn ymdrin ag ef oedd Haf 2012, Hydref 2012 a Gwanwyn 2013. Derbyniwyd yr adroddiad gan yr aelodau. Byddai'r adroddiad yn cael ei gylchredeg i GYSAG'au.

4. **Adroddiad y Trysorydd /Treasurer's Report.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd, John Mitson, a dynnodd sylw at y ffaith mai prif ffynhonnell incwm y Gymdeithas oedd tanysgrifiadau. Hyd y diwrnod hwnnw, yr oedd yr holl danysgrifiadau ac eithrio un wedi eu derbyn oddi wrth y CYSAG'au. Bu'r gwariant yn uwch y flwyddyn honno oherwydd yr hyfforddiant CA3 yr oedd CCYSAGauC wedi ei gynnig ar y cyd â'r consortia. Hefyd, bu'r treuliau'n uwch oherwydd i gostau gwasanaethau cyfieithu a threuliau o'r flwyddyn flaenorol gael eu cynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, bu'r gwariant £1469.31 yn fwy na'r incwm. Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yr oedd tri thanysgrifiad

**WASACRE Annual General Meeting minutes, 19 June 2013**

1. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llandudno Junction ar 26 Mehefin 2013**

Minutes of the Annual General Meeting held in Wrexham, 26 June 2012.
The minutes were accepted as a true record of the meeting.

2. **Materion yn Codi / Matters Arising.**

There were no matters arising.

3. **Adroddiad CCYSAGauC am 2012-2013 WASACRE Report for 2012-2013.**

The Chair presented the annual report to members. It was confirmed that the period it covers is Summer 2012, Autumn 2012 and Spring 2013. The report was accepted by members. The report will be circulated to SACREs.

4. **Adroddiad y Trysorydd /Treasurer's Report.**

Treasurer John Mitson presented the report and pointed out that the main source of income for the Association is from subscriptions. To date all subscriptions, apart from one, had been received from the SACREs. Spending is higher this year due to the KS3 training offered by WASACRE in association with the consortia. Also, expenses are higher this year due to translation services and expenses from last year being included in this year's accounts. During the year, expenditure exceeded income by £1469.31. However, at the end of the financial year, three subscriptions had not been received and, if they had been paid at that point, this would have reduced the overspend in year by £1224.00, leaving an

draft

| | |
|---|---|
| yn dal heb eu derbyn; pe baent wedi eu talu erbyn yr adeg honno, buasai'r gorwariant £1224.00 yn llai, gan adael gorwariant o £245.31 am y flwyddyn. Yr oedd hyn yn cymharu â thanwariant, yn ystod y flwyddyn 2011/2012, o £3384.66. Yr oedd y flwyddyn ariannol wedi dechrau gyda gweddill o £18812.88, ac wedi diweddu gyda gweddill o £17343.57. Yr oedd cyllid CCYSAGauC, felly, yn aros mewn cyflwr iach iawn, er bod lleihad o £1469.31 o gymharu â'r sefyllfa a fodolai ar ddiwedd 2011/2012. Yr oedd CCYSAGauC, felly, mewn sefyllfa gref i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig a oedd yn cynorthwyo CYSAG'au ac ysgolion. | overspend in year of £245.31. This compares with an under spend in year in 2011/2012 of £3384.66. The financial year commenced with a balance of £18812.88 and ended with a balance of £17343.57. The finances of WASACRE, therefore, remain in a very healthy condition, although they represent a reduction on the position at the end of 2011/2012 by £1469.31. WASACRE is, therefore, in a strong position to fund its planned activities that support SACREs and schools. |
| Argymhellwyd y dylai tanysgrifiadau am y flwyddyn ariannol gyfredol godi 2.08%, a fyddai'n codi'r tanysgrifiad i £418.00 fesul CYSAG. Derbyniwyd hyn gan yr aelodau, a chytunodd yr holl aelodau a oedd yn bresennol y dylid cynnal y symiau treuliau. Nododd Phil Lord fod CCYSAGauC yn talu am 'Reflections' yn 'Newyddion AG', ond yr oedd rhai awdurdodau lle nad oedd modd derbyn 'Newyddion AG' gan nad oeddynt yn talu amdano. Cadarnhaodd John Mitson, y Trysorydd, fod CYSAG'au yn dal i feddu ar gopïau o 'Reflections' y gallent eu rhannu gyda'r awdurdodau hynny. Tynnodd Tania ap Siôn sylw at gofnodion y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â 'Newyddion AG' a'r cyfarfod a gynhaliwyd rhwng CCYSAGauC, 'Newyddion AG' a MAGC. Yr oedd trafodaeth ddechreuol gadarnhaol wedi ei chynnal, a byddai'r aelodau'n cael y newyddion diweddaraf am unrhyw ddatblygiadau. | It was recommended that subscriptions for the current financial year should rise by 2.08%, which raises subs to £418.00 per SACRE. This was accepted by members and all members present agreed to maintain the expenses amounts. Phil Lord noted that WASACRE pays for Reflections in RE News but some authorities did not have access as they do not pay for RE News. John Mitson, Treasurer confirmed that SACREs still have copies of Reflections that they can share with those authorities. Tania ap Sion pointed to the Executive minutes with regard to RE News and the meeting that took place between WASACRE, RE News and REMW. A positive initial discussion had taken place and members would be kept abreast of any developments. |
| Gofynnodd John Mitson am i'r cyfrifon gael eu derbyn. Derbyniodd yr aelodau'r cyfrifon, a diolchodd y Cadeirydd i John Mitson am adroddiad clir a chryno ac am ei waith drwy gydol y flwyddyn. | John Mitson asked for the accounts to be accepted. Members accepted the accounts and the Chair thanked John Mitson for a clear and succinct report and his work throughout the year. |

draft

| | |
|---|---|
| 5. **Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol / Outgoing Chair’s comments**<br>Diolchodd y Cadeirydd, Edward Evans, i'r aelodau am y cyfle a'r fraint o fod yn Gadeirydd. Yr oedd yn credu mai'r unig beth oedd yn rhoi sefydlogrwydd i bobl oedd crefydd, a gorau po fwyaf y gallem hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth grefyddol. Dywedodd Edward ei fod yn hapus ei fod yn gallu bod yn rhan o hynny. Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Is-gadeirydd, Tania ap Siôn, symud i swydd y Cadeirydd. | 5. **Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol / Outgoing Chair’s comments**<br>Chair, Edward Evans thanked members for the opportunity and privilege of being Chair. He believes that the one thing that gives stability to people is religion and the more we can promote understanding of religious diversity the better. Edward said that he is happy that he can be a part of that. The Chair proposed that the Vice Chair, Tania ap Sion move to position of Chair. |
| 6. **Ethol Cadeirydd / Election of Chair**<br>Derbyniodd yr Is-gadeirydd, Tania ap Siôn, swydd y Cadeirydd. Diolchodd i Edward Evans am ei ymroddiad a'i waith ar ran CCYSAGauC dros y ddwy flynedd diwethaf. Pwysleisiodd y fraint o allu gwasanaethu fel Cadeirydd y Gymdeithas, a chydnabu'r cyfnod heriol a oedd o'n blaenau, pan fyddai gan GCYSAGauC rôl bwysig a chreadigol i'w chwarae. | 6. **Ethol Cadeirydd / Election of Chair**<br>Vice Chair, Tania ap Sion, took the position of Chair. She thanked Edward Evans for his commitment and work on behalf of WASACRE over the past two years. She emphasized the privilege of being able to serve as Chair to the Association and recognized the challenging times ahead where WASACRE would have an important and creative role to play. |
| 7. **Ethol Is-gadeirydd /<br>Election of Vice-Chair**<br>Cafodd Gavin Craigen ei ethol i swydd Is-gadeirydd y Gymdeithas. | 7. **Ethol Is-Gadeirydd /<br>Election of Vice-Chair**<br>Gavin Craigen was elected to the position of Vice Chair to the association. |
| 8. **Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith / Election of members to the Executive**<br>Pwysleisiodd y Cadeirydd mai calonogol iawn oedd gweld bod cymaint o aelodau CYSAG’au yn fodlon cyflwyno'u henwau ar gyfer eistedd ar y Pwyllgor Gwaith. Yr oedd hyn yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar ganfyddiadau ynglŷn â ChCYSAGauC a'i gwaith. Yr oedd y penodiadau canlynol wedi eu gwneud:<br>Mark Brown (aelod o'r Pwyllgor Gwaith, CYSAG Conwy)<br>Mary Parry (aelod o'r Pwyllgor Gwaith, | 8. **Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith / Election of members to the Executive**<br>The Chair emphasised that it had been very heartening to see so many SACRE members willing to put their names forward to sit on the Executive Committee. It reflects positively on perceptions of WASACRE and its work. The following appointments have been made:<br>Mark Brown (Executive member, Conwy SACRE)<br>Mary Parry (Executive member, Carmarthenshire SACRE) |

draft

| | |
|---|---|
| CYSAG Sir Gaerfyrddin)<br><br>Ar gyfer y drydedd swydd ar y Pwyllgor Gwaith, cafwyd pleidlais gyfartal rhwng y Cynghorydd Michael Gray (CYSAG Caerffili) a'r Parch Roy Watson (CYSAG Blaenau Gwent). Gyda chaniatâd yr aelodau, byddai CCYSAGauC yn gofyn i GYSAG'au bleidleisio eilwaith ynglŷn â'r ddau ymgeisydd hynny'n unig, drwy e-bost. Byddai Libby Jones yn trefnu hyn gyda'r CYSAG'au. Cytunodd yr aelodau i hyn, a chynigiodd Edward Evans y dylem edrych ar y Cyfansoddiad mewn perthynas â'r mater hwn, er mwyn gallu cyfeirio ato yn y dyfodol. | For the third position on the Executive Committee, there was a tie between Cllr Michael Gray (Caerphilly SACRE) and Revd Roy Watson (Blaenau Gwent SACRE). With members' permission WASACRE will ask SACREs to vote again on just those two candidates by email. Libby Jones will arrange this with SACREs. Members agreed to this and Edward Evans proposed that we look at the constitution on this matter for future reference. |
| 9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>Nid oedd unrhyw faterion eraill.<br><br>10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting.**<br>Byddai manylion ynglŷn â'r Cyfarfod Blynyddol nesaf ym Mehefin 2014 yn cael eu cylchredeg wedi i benderfyniad gael ei wneud. Diolchodd y Cadeirydd i Gyngor a ChYSAG Gwynedd am groesawu'r cyfarfod, a diolchodd yn neilltuol i'r bobl a ganlyn:<br><br>Ken Robinson, Selwyn Griffiths, Dewi R. Jones (Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd), Bethan James, y Cyfieithwyr a'r holl Aelodau. | 9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>There was no other business.<br><br>10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting.**<br>Details of the next AGM in June 2014 will be circulated when a decision is made. The Chair thanked Gwynedd County Council and SACRE for hosting the meeting and thanked in particular the following people:<br><br>Ken Robinson, Selwyn Griffiths, Director of Education for Gwynedd, Bethan James, Translators and all Members. |

draft